AGGCC CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar adolygiad AGGCC-Estyn o ddatblygu a chau dilynol

Cartref Plant Hyfrydle

Medi 2008

Adroddiad ar adolygiad AGGCC-Estyn o ddatblygu a chau dilynol Hyfrydle, y goblygiadau i blant a phobl ifanc a'r effaith ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysgol eraill yn Ysgol Plas Brondyffryn

Cynnwys Tudalen

Cyflwyniad **1**

Methodoleg **2**

Crynodeb o'r canfyddiadau **4**

Cyd-destun **6**

Cylch gorchwyl 1 **8**

Angen 8
Cyllid 9
Y cyfnod cynllunio 10
Cydgynllunio a rheoli yn yr awdurdod lleol 11
Cynllunio ar gyfer partneriaeth gydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru 13
Cynllunio ar gyfer partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Brondyffryn 14
Cynllunio ar gyfer partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru 14
Rheoli risg 15
Symud y prosiect ymlaen 15

Cylch gorchwyl 2 **19**

Cronoleg o'r digwyddiadau rhwng Tachwedd 2007 a Gorffennaf 2008 19
Dadansoddiad llwybr critigol 24

Cylch gorchwyl 3 **28**

Cylch gorchwyl 4 **32**

Effaith bosibl yn y tymor byr 33
Effaith bosibl yn y tymor hwy 33

Atodiad 1

Cyflwyniad

1 Ar 24 Gorffennaf 2008, gofynnodd Jane Hutt AC, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ac Estyn gynnal adolygiad yn dilyn penderfyniad Cyngor Sir Ddinbych i gau cartref plant Hyfrydle. Cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yw:

- ystyried y broses a ddefnyddiwyd i benderfynu agor uned breswyl a fyddai ar agor 52 wythnos y flwyddyn ym mis Tachwedd 2007;
- darparu dadansoddiad llwybr critigol o'r cyfnod rhwng dechrau mis Tachwedd 2007 a 15 Gorffennaf 2008, pan benderfynwyd cau'r cartref plant;
- adrodd ar y gwaith cynllunio y mae'r awdurdod lleol wedi ymgymryd ag ef er mwyn bodloni anghenion y bobl ifanc hynny a oedd eisoes yn byw yn Hyfrydle, neu'n bwriadu byw yno, wedi i'r penderfyniad gael ei wneud i gau'r cartref; ac
- asesu effaith bosibl cau Hyfrydle ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysgol eraill a ddarperir ar safle Ysgol Plas Brondyffryn.

2 Cynhaliwyd yr adolygiad cynnar hwn gan AGGCC mewn perthynas ag arfer y swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dan awdurdod adolygu Gweinidogion Cymru dan adran 94 Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd a Safonau Cymunedol) 2003 a chan Estyn, wrth arfer swyddogaeth addysg yn unol â'r pwerau hynny yn adran 38 Deddf Addysg 2007.

Methodoleg

3 Cynhaliwyd yr adolygiad gan dîm o arolygwyr o AGGCC ac Estyn a oedd yn cynnwys:

Rhonwyn Dobbing	Arolygydd	AGGCC
Iona Roberts	Rheolwr Tîm	AGGCC
Janice Thomas	AEM	Estyn
Sue Willan	AEM	Estyn

4 Er mwyn sicrhau bod yr adolygiad wedi'i seilio ar wybodaeth dda, roedd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) wrth law i roi cyngor arbenigol yn ôl yr angen. Bydd materion perthnasol sy'n deillio o'r adolygiad yn cael ei fwydo i mewn i adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o reolaeth gorfforaethol yng Nghyngor Sir Ddinbych a gynhelir ym mis Medi 2008.

5 Cynhaliwyd gwaith maes dros gyfnod o wyth niwrnod rhwng 11 a 28 Awst 2008. Yn ystod y cyfnod hwn, craffodd y tîm adolygu ar gofnodion a gohebiaeth, gan gynnwys negeseuon e-bost, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau a phapurau pwyllgor yn ymwneud â'r pedwar mater a nodwyd yng nghylch gorchwyl yr adolygiad.

6 Paratôdd yr awdurdod lleol gronoleg a wnaeth grynhoi'r prif gerrig milltir yn y gwaith o ddatblygu a gwneud penderfyniadau a oedd yn gysylltiedig â chomisiynu'r cyfleuster hwn a'i gau wedyn. Hefyd, rhoddodd yr awdurdod lleol gopi drafft o'i adolygiad rheoli annibynnol ei hun o Hyfrydle i'r tîm adolygu.

7 Hefyd, cynhaliodd y tîm adolygu gyfweliadau â'r swyddogion a'r aelodau canlynol:

- y prif weithredwr;
- cyfarwyddwr corfforaethol dros dro: dysgu gydol oes;
- cyfarwyddwr corfforaethol: gwasanaethau cymdeithasol a thai;
- pennaeth partneriaethau a chynhwysiad dros dro;
- swyddog arwain: anghenion dysgu ychwanegol;
- rheolwr cofrestredig, Hyfrydle;
- pennaeth gwasanaethau plant a theuluoedd;
- pennaeth Ysgol Plas Brondyffryn;
- arweinydd y cyngor;
- cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Plas Brondyffryn;
- aelodau portffolio dros addysg a gwasanaethau cymdeithasol;
- yr aelodau a oedd yn gyfrifol am y penderfyniad i agor a chau'r uned breswyl;
- rheolwr datblygu rheoli perfformiad, gwasanaethau cymdeithasol a thai;
- un o rieni Hyfrydle;
- yr unigolyn cyfrifol blaenorol;
- dirprwy bennaeth blaenorol Ysgol Plas Brondyffryn a oedd yn gysylltiedig â rheoli prosiect Hyfrydle; a
- staff rheoli gofal gwasanaethau cymdeithasol o Gyngor Sir Ddinbych ac awdurdodau lleoli eraill.

8 Yn ogystal, gwelodd tîm adolygu gofnodion yn ymwneud â Hyfrydle gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gwnaethant gyfweld â swyddogion perthnasol. Nid yw pwerau AGGCC ac Estyn yn ymestyn i arfarnu rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y prosiect hwn, er bod yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfeiriadau at gamau gweithredu a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

9 Mae pob un o'r rheiny a oedd yn gysylltiedig â'r adolygiad wedi cydweithredu'n llawn a hoffai'r tîm adolygu ddiolch iddynt am eu cymorth.

Crynodeb o'r canfyddiadau

10 Roedd datblygu cartref plant Hyfrydle yn gam olaf prosiect uchelgeisiol a oedd â'r weledigaeth o greu canolfan ragoriaeth ranbarthol i blant ag anhwylder y sbectrwm awtistig. Roedd y prosiect llawn yn cynnwys ailddatblygu ysgol arbennig gyda chyfleusterau preswyl. Dechreuodd y prosiect yn 2000, a gorffennwyd ef yn 2007.

11 Ar y cyfan, mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus, ac eithrio datblygu'r ddarpariaeth breswyl 52 wythnos, sef Hyfrydle.

12 Effeithiodd sawl ffactor ar ddatblygiad prosiect Hyfrydle, gan gynnwys:

a. Aeth saith mlynedd heibio rhwng dechrau a diwedd y prosiect hwn. Yn ystod y cyfnod hwnnw, newidiodd y 'dirwedd' yn sylweddol mewn sawl ffordd, gan gynnwys;

- datblygu modelau eraill o ofal a chymorth i blant ag anhwylder y sbectrwm awtistig; ac
- ymddangosiad arbenigedd yn y sector annibynnol a datblygu cystadleuaeth uniongyrchol i Ysgol Plas Brondyffryn a'i chyfleusterau preswyl.

b. Wrth ddatblygu'r prosiect:

- roedd y gwaith o reoli'r prosiect a chyfathrebu yn wael, roedd y gwaith o ymchwilio ac arfarnu'r farchnad yn gyfyng a'r gwaith cynllunio, rheoli ac adolygu yn annigonol;
- roedd diffyg dilyniant yn y gwaith o reoli'r prosiect o ganlyniad i drosiant uchel o ran staff allweddol;
- diddymwyd Ymddiriedolaeth Brondyffryn;
- roedd diffyg eglurder ymysg rhanddeiliaid allweddol ynghylch eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd;
- roedd diffyg ymgysylltiad cyson ac effeithiol rhwng rhanddeiliaid allweddol trwy gydol y prosiect; ac
- ni chydweithiodd yr awdurdod lleol yn effeithiol yn ystod y prosiect hwn, er bod y tîm adolygu wedi canfod tystiolaeth o welliant yn y maes hwn yn ddiweddar.

c. Datblygu a gweithredu cartref plant:

- ni chafwyd arbenigedd proffesiynol digonol o'r cychwyn ynghylch datblygu a gweithredu'r cartref plant hwn:

- rhoddwyd newidiadau i bolisïau a rheoliadau ar waith, yn arbennig Deddf Safonau Gofal 2000.

13 Ni chydnabuwyd yr holl ffactorau hyn yn llawn ac ni aethpwyd i'r afael â'r materion yn ymwneud â rheoli'r prosiect yn effeithiol. Ni chafodd cynlluniau'r prosiect eu hailarfarnu na'u haddasu i ystyried y dirwedd a'r amgylchiadau a oedd wedi newid cyn agor Hyfrydle yn 2007. Dim ond ar ôl agor Hyfrydle y cafodd y prosiect ei ail-arfarnu.

14 Cafodd yr oedi wrth gwblhau prosiect Hyfrydle effaith sylweddol ar ei hyfywedd. Seiliwyd y penderfyniad i adolygu hyfywedd Hyfrydle a'i ddefnydd yn y dyfodol yn 2008 ar bryderon didwyll a dilys ynghylch priodoldeb ac hyfywedd ariannol y ddarpariaeth.

15 Cyn i Hyfrydle agor, roedd Cyngor Sir Ddinbych yn ymwybodol o'r risg ariannol ac yn derbyn y risg hwnnw. Wedi i Hyfrydle agor, cydnabu'r awdurdod fod graddau'r diffyg yn ei gostau gweithredu yn fwy nag y rhagwelwyd yn wreiddiol. Yn yr amgylchiadau, roedd y penderfyniad i adolygu'r ddarpariaeth yn briodol.

16 O ystyried yr angen i ddenu mwy o awdurdodau i leoli plant yn Hyfrydle er mwyn iddo fod yn hyfyw, nid oedd gan yr awdurdod fawr o ddewis ond parhau ar sail 'busnes fel arfer'. Er mwyn lleoli mwy o blant yn y cartref, roedd rhaid recriwtio a phenodi mwy i staff; fodd bynnag, ni ddylid fod wedi penodi'r staff hyn yn ffurfiol nes y gwnaed y penderfyniad ynghylch dyfodol Hyfrydle.

17 Nid oedd y trefniadau i leoli hyd at dri phlentyn newydd yn Hyfrydle yn ddigonol i'w wneud yn ymarferol.

18 Er mwyn lleihau'r amhariad posibl ar fywydau'r plant hyn pe byddai Hyfrydle yn cael ei gau yn fuan ar ôl iddynt gael eu lleoli yna, byrhaodd yr awdurdod y broses adolygu.

19 Nododd yr adroddiad i'r cabinet a'r achos busnes amlinellol yr opsiynau ar gyfer Hyfrydle a nododd hefyd gyfyngiadau'r dystiolaeth a oedd ar gael i seilio penderfyniad arni, o ystyried yr amgylchiadau.

20 Roedd cyflymder ac amseriad y penderfyniad ynghylch cau Hyfrydle yn golygu mai ychydig iawn o amser oedd ar gael i weithio gyda'r plant a oedd yno a'u teuluoedd er mwyn rheoli eu trosglwyddiad i gartref ac ysgol newydd.

21 Nid yw cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn cynnwys cynnal arfarniad o'r farchnad neu adolygiad manwl o hyfywedd Hyfrydle a'r diffygion gweithredu gwirioneddol ac amcanol. Nid yw cylch gwaith y tîm adolygu yn cynnwys archwilio'r gwariant cyflawn ar y prosiect, y defnydd o fenthyca darbodus na'r defnydd o'r grant gwella adeiladau ysgol ychwaith. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod yr holl bartïon wedi ei chael yn anodd darparu cyfrifon clir sy'n dadagregu gwariant y gwahanol ffynonellau ariannu.

22 Hyd yn hyn, nid yw cau Hyfrydle wedi cael fawr o effaith ar gyfleusterau addysgol a gofal cymdeithasol eraill yn Ysgol Plas Brondyffryn.

Cyd-destun

Hyfrydle

23 Comisiynwyd cartref plant Hyfrydle i ddarparu gofal preswyl 52-wythnos i ddisgyblion yn Ysgol Plas Brondyffryn. Mae Hyfrydle yn gartref plant cofrestredig, a luniwyd ar gyfer uchafswm o 11 o blant ac a gofrestrwyd ar gyfer 6 o blant, pan agorodd y cartref gyntaf ym mis Tachwedd 2007. Mae Hyfrydle yn ffurfio rhan annatod o ailddatblygiad ehangach a hwn oedd un o'r rhannau olaf o brosiect i wella Ysgol Plas Brondyffryn a'i sefydlu fel canolfan ragoriaeth ranbarthol ar gyfer anghenion addysgol arbennig i bobl ifanc yng Ngogledd Cymru ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig, gan ddarparu addysg, gofal a chymorth i blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd ledled Gogledd Cymru gydol eu plentyndod.

Ysgol Plas Brondyffryn

24 Ysgol arbennig breswyl a dydd a gynhelir i blant rhwng 3 a 19 oed yw Ysgol Plas Brondyffryn, sy'n darparu cyfleuster rhanbarthol i blant a phobl ifanc sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA). Mae'n cael ei rhedeg gan Gyngor Sir Ddinbych. Sefydlwyd yr ysgol ym 1974 ac ers hynny mae wedi darparu addysg arbennig yn ystod y dydd ac addysg breswyl am 38-wythnos y flwyddyn. Derbynnir disgyblion i'r ysgol i awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac o awdurdodau cyfagos yn Lloegr.

25 Mae'r ysgol wedi bod yn destun rhaglen ailddatblygu cyfalaf fawr fel yr amlinellir isod.

<u>Cyfnod 1</u>

- Adeiladwyd cyfleusterau newydd sbon ar gyfer cyfnodau allweddol 3 a 4 yn Ysgol Uwchradd Dinbych, a agorwyd yn swyddogol ym mis Medi 2004.

- Darpariaeth ar gyfer cyfnodau allweddol 1 a 2 (Tŷ'n Fron) ar safle Ysgol Gynradd Frongoch, a gwblhawyd ym mis Ionawr 2006 ac a agorwyd adeg y Pasg yn 2006.

<u>Cyfnod 2</u>

- Uned breswyl 38-wythnos, o'r enw Gerddi Glasfryn, ar safle Gwynfryn (rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y safle i Gyngor Sir Ddinbych yn 2002). Dechreuodd plant a phobl ifanc o Ysgol Plas Brondyffryn ddefnyddio'r cyfleuster newydd hwn yng nghanol 2006. Fel rhan o ysgol arbennig breswyl, mae'r cyfleuster hwn yn destun arolygiad gan AGGCC ac Estyn.

- Uned cymorth dwys, Tŷ'r Ysgol, ar safle Gwynfryn i fodloni anghenion addysgol cymhleth pobl ifanc yn Hyfrydle. Mae gan Dŷ'r Ysgol bedair ystafell ddosbarth a gall dderbyn hyd at 12 o blant.

- Cartref preswyl 52-wythnos i blant, Hyfrydle, ar safle Gwynfryn. Cwblhawyd gwaith ar yr adeilad hwn ym mis Gorffennaf 2006. Dechreuodd rheolwyr yr uned yn eu swyddi ym mis Medi 2006, ond ni dderbyniodd y cyfleuster ei ddau

breswylydd cyntaf tan fis Tachwedd 2007. Fel cartref preswyl i blant, mae Hyfrydle yn destun cofrestriad ac arolygiad gan AGGCC.

26 Ceir siart llawn yn dangos y ddarpariaeth yn Ysgol Plas Brondyffryn yn Atodiad 1.

27 Mae'r gwaith o ailddatblygu ac adnewyddu adeiladau'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus. Mae'r cynllun wedi hyrwyddo cynhwysiad ac wedi arwain at ganlyniadau gwell i ddisgyblion, a gadarnhawyd yn adroddiad arolygu Estyn o wasanaethau addysg awdurdod lleol Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2007 a nododd:

"Mae enghreifftiau o arfer effeithiol iawn yn cynnwys y cymorth y mae'r awdurdod yn ei roi ar gyfer cynnwys disgyblion ag anhwylder sbectrwm awtistig mewn ysgolion prif ffrwd, er enghraifft, trwy'r gwaith partneriaeth rhwng Ysgol Plas Brondyffryn ac ysgolion prif ffrwd lleol."

28 Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud:

"Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r awdurdod wedi gwella'r adeiladau a'r adnoddau yn ei ddwy ysgol arbennig yn sylweddol. Mae ansawdd uchel y ddarpariaeth yn Ysgol Plas Brondyffryn yn creu mwy o alw am leoedd gan deuluoedd yn yr awdurdod a'r tu allan. Mae'r awdurdod wedi gwella'r adeiladau ac wedi cynyddu cwmpas y ddarpariaeth yn Ysgol Tir Morfa. O ganlyniad, mae disgyblion a fyddai wedi cael eu lleoli mewn ysgolion arbennig y tu allan i'r sir o'r blaen yn awr yn elwa ar gael mynediad at ddarpariaeth o ansawdd da yn agosach at gartref."

29 Dylid nodi hefyd fod y ddarpariaeth 38-wythnos, Gerddi Glasfryn, yn cael ei defnyddio'n dda gan ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol o bob rhan o Ogledd Cymru.

30 Ym mis Gorffennaf 2008, pan benderfynwyd cau Hyfrydle, roedd Tŷ'r Ysgol yn darparu addysg i ddau breswylydd o Hyfrydle ac i sawl disgybl arall o Ysgol Plas Brondyffryn.

Cylch gorchwyl 1

Ystyried y broses a ddefnyddiwyd i benderfynu agor uned breswyl a fyddai ar agor 52 wythnos y flwyddyn ym mis Tachwedd 2007

Angen

31 Canfu'r tîm arolygu bod Cyngor Sir Ddinbych wedi lobïo cyn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig, mor gynnar â 1999, i gefnogi ymdrechion Ysgol Plas Brondyffryn i fod yn ganolfan ragoriaeth ranbarthol. Roedd hyn yn dilyn arolygiad gan Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi (SPAEM) ym 1998 a adroddodd bod *"…yr ysgol ymhell o gyflawni'r lefelau ansawdd sy'n gysylltiedig â chanolfan ragoriaeth."* Roedd prif bryderon SPAEM yn ymwneud â diffygion pwysig yn adeiladau'r ysgol a'r llety preswyl. Bryd hynny, derbyniwyd na fyddai hostel breswyl 38-wythnos yr ysgol yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arbennig Preswyl a oedd ar ddod. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch y ffaith bod rhai disgyblion yn gadael yr ysgol pan nad oedd eu teuluoedd yn gallu ymdopi â'u hymddygiad heriol mwyach. Roedd angen darpariaeth breswyl 52-wythnos ar y disgyblion hyn ac nid oedd y cyfleuster hwn ar gael yn Ysgol Plas Brondyffryn ar y pryd. Yn aml, roedd y bobl ifanc hyn yn cael eu lleoli ymhell o Ogledd Cymru, er enghraifft, yn Southampton.

32 Parhaodd yr awdurdod lleol i lobïo nifer o Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol Gogledd Cymru a chyn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig, i wella'r ddarpariaeth yng Ngogledd Cymru ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth. Cefnogwyd y sylwadau hyn gan staff, y pennaeth a rhieni disgyblion a oedd yn mynychu Ysgol Plas Brondyffryn, yn ogystal â sefydliadau gwirfoddol. Aeth y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd i ymweld ag Ysgol Plas Brondyffryn ar 1 Tachwedd 2000, a gweld cyflwr gwael adeiladau'r ysgol o lygad y ffynnon. Yn ystod yr ymweliad hwn, rhoddwyd pwysau ar y Gweinidog gan yr awdurdod lleol a chorff llywodraethol yr ysgol i roi cymorth ariannol er mwyn ailddatblygu'r ysgol.

33 Yn sgil y sylwadau hyn, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes yn dilyn ei hymweliad ar 24 Tachwedd 2000 yn y Sesiwn Lawn ei bod yn dyrannu £2 miliwn ar gyfer cost ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn.

34 Roedd y cyfle i gael cyllid i wella adeiladau'r ysgol yn gatalydd i ddatblygu gweledigaeth y Gweinidog a'r Cyngor o ddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn yn ganolfan ragoriaeth ranbarthol ar gyfer plant a phobl ifanc ag awstistiaeth ledled Gogledd Cymru. Rhannwyd y weledigaeth hon gan staff a llywodraethwyr yr ysgol, yn ogystal â rhieni.

35 Er bod cynnig darpariaeth breswyl 38 wythnos a 52 wythnos yn cael ei hystyried yn rhan annatod o'r ddarpariaeth ar gyfer cyfleuster rhanbarthol, yn enwedig gan grwpiau rhieni, ni chanfu'r tîm adolygu unrhyw dystiolaeth bod unrhyw ymchwil ffurfiol wedi'i wneud i bennu'r angen posibl am leoliadau preswyl 52 wythnos i blant ag anhwylder y sbectrwm awtistig yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r achos busnes yn cyfeirio at brosiect ymchwil a gomisiynwyd gan y Cynulliad ac a gynhaliwyd gan Gunars Grinvalds am anableddau llai cyffredin ledled Gogledd Cymru. Daeth canfyddiadau Grinvalds mewn perthynas ag awstistiaeth i'r casgliad y bu cynnydd yn nifer y plant a oedd wedi'u diagnosio ag awtistiaeth, a bod hynny wedi achosi problemau i'r holl asiantaethau wrth ddarparu gwasanaethau addas i fodloni anghenion y sbectrwm awtistig cyfan.

Cyllid

36 Yn ystod cyfnod cynllunio'r awdurdod lleol ar gyfer y prosiect ailddatblygu, cysylltodd rhieni a llywodraethwyr yr ysgol â'r Cynulliad yn gofyn am gymorth i gaffael safle Gwynfryn, ar ôl i'r ymddiriedolaeth iechyd ddatgan "nad oedd ei angen mwyach". Sefydlwyd sefydliad elusennol, o'r enw Ymddiriedolaeth Brondyffryn, ym mis Hydref 2001 i godi arian i wella cyfleusterau ac adeiladau'r ysgol. Cafodd yr Ymddiriedolaeth rodd o £250,000 gan sefydliad Shirley tuag at y gwelliannau. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys aelodau o fusnesau lleol, llywodraethwyr ysgol a rhieni.

37 Roedd y costau amcangyfrifedig a'r trefniadau ariannu ar gyfer y gwaith ailddatblygu a gwblhawyd mewn dau gyfnod, fel a ganlyn:

- Cyfnod Un: Ailddatblygu safle Tŷ'n y Fron ac Ysgol Uwchradd Dinbych i ddarparu unedau addas wedi'u huwchraddio i'r holl ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 1-4 o Ysgol Plas Brondyffryn. **Cost amcangyfrifedig:** £2.25 miliwn – byddai'r Cynulliad yn cyfrannu £2 miliwn o'r arian hwn a'r awdurdod lleol yn cyfrannu £0.25 miliwn.

- Cyfnod Dau: Cyfleusterau cymorth ategol – gofal preswyl a gofal seibiant, uned addysg ddwys, uned asesu, uned hyfforddi rhieni ac athrawon. **Cost amcangyfrifedig:** £3.5 miliwn. Ymddiriedolaeth Brondyffryn fyddai'n gyfrifol am gyllid Hyfrydle. Ni ddaeth y tîm adolygu o hyd i unrhyw amcangyfrif penodol ar gyfer y gost hon.

38 Ym mis Gorffennaf 2002, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd y byddai'n rhyddhau £2 miliwn er mwyn galluogi'r gwaith o ailddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn i ddechrau ar unwaith. Cyhoeddodd hefyd y byddai'r prosiect yn cynnwys y cyfleusterau ategol a nodwyd uchod.

39 Heblaw'r buddsoddiad ariannol gwreiddiol a wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y rhaglen dylunio ac adeiladu, rhoddodd hen safle Ysbyty Gwynfryn i Gyngor Sir Ddinbych hefyd, er mwyn lleoli cyfleusterau preswyl Hyfrydle a Gerddi Glasfryn yno, ynghyd â Thŷ'r Ysgol (Cyfnod 2). Gwerth tybiannol y safle bryd hynny oedd £350,000. Rhoddwyd y safle ar yr amod y byddai'n parhau i gael ei ddefnyddio fel canolfan ranbarthol ar gyfer awstistiaeth yng Ngogledd Cymru.

40 Trwy dderbyn yr arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, roedd y cyngor yn ymrwymo ei hun i'r datblygiad cyfan a ddisgrifiwyd uchod.

41 Daeth y gwariant gwirioneddol ar ddatblygu Ysgol Plas Brondyffryn i gyfanswm o £6.2 miliwn, gyda'r Cynulliad yn cyfrannu bron £4 miliwn a Chyngor Sir Ddinbych yn cyfrannu bron £2.2 miliwn trwy fenthyca darbodus. Mae'r ffigur cyffredinol o £6.2 miliwn yn cynnwys gwariant cyfalaf o ychydig dros £2 miliwn ar Hyfrydle a Thŷ'r Ysgol.

Y cyfnod cynllunio

42 Yn dilyn y cyhoeddiad gan y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd ym mis Tachwedd 2000, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd, trafodaethau a digwyddiadau ymgynghori yn cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol ledled Gogledd Cymru rhwng mis Tachwedd 2000 a mis Ebrill 2001, a arweiniodd at lunio cynllun gweithredu. Y cynllun hwn oedd ffocws cyfnod ymgynghori pellach a arweiniodd at adroddiad yn amlinellu "cydweledigaeth Cyngor Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth Brondyffryn". Roedd y broses hon yn llafurus iawn oherwydd y nifer fawr o randdeiliaid a oedd ynghlwm wrthi a natur gymhleth y datblygiad. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r dogfennau sydd ar gael bod uwch swyddogion o'r gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes a'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol wedi cyfrannu at y broses ymgynghori.

43 Cyflwynwyd cynllun busnes, a gafodd ei lywio gan yr adroddiad a grybwyllwyd ynghynt, i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Gorffennaf 2002. Mae'r cynllun hwn yn dangos bod tendrau wedi'u cyflwyno ar gyfer adeiladu cyfnod un a chyfnod dau adeg y cais am ganiatâd cynllunio. Mae'r cynllun busnes yn nodi y byddai'r ailddatblygiad wedi'i gwblhau ym mis Ebrill 2004.

44 Arweiniodd rhodd safle Gwynfryn at oedi sylweddol yn ystod ail gyfnod y gwaith datblygu, wrth i adeiladau rhestredig Gradd II yr ysbyty gyflwyno heriau dylunio ac adnewyddu. Cwblhawyd y rhaglen adeiladu ar gyfer Hyfrydle ym mis Gorffennaf 2006, ond ni agorodd y ddarpariaeth 52 wythnos na derbyn ei phreswylwyr cyntaf tan 5 Tachwedd 2007, oherwydd materion yn ymwneud â staffio a chofrestru fel cartref plant.

45 Ni chafodd y tîm adolygu hyd i unrhyw dystiolaeth bod y cynllun busnes gwreiddiol, o 2002, wedi'i gyflwyno i'r cabinet nac unrhyw un o bwyllgorau'r awdurdod lleol yn Sir Ddinbych. Cyflwynwyd adroddiadau yn ymwneud ag ailddatblygu'r ysgol i'r cabinet yn hwyrach er mwyn iddynt gymeradwyo'r trefniant cymhleth i ariannu'r prosiect.

46 Mae cynllun busnes 2002 yn rhoi tystiolaeth y cynhaliwyd ymgynghoriad ym mhob un o'r awdurdodau lleol ac awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, ac mae'n cynnwys tystiolaeth o ymgynghori â chyrff iechyd perthnasol a chydnabyddiaeth o'r cymhlethdodau ariannu sy'n gysylltiedig â darparu cyfleusterau addysg a chyfleusterau gofal preswyl ar draws awdurdodau lleol a chyrff iechyd yng Ngogledd Cymru. Mae'r adroddiad a'r cynllun busnes hefyd yn cydnabod cymhlethdod y prosiect hwn a'r risgiau a nodwyd.

47 Roedd y bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych ac ymddiriedolaeth elusennol yn gysyniad arloesol, ond roedd iddi anawsterau hefyd oherwydd y cymhlethdodau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â rhoi'r cyfrifoldeb i elusen o godi arian i adnewyddu'r adeiladau a gweithredu gwasanaeth preswyl ar ran y cyngor. Mae'r adroddiad ymgynghori yn ystyried y rhyddid i godi arian yn ased, gan ddweud:

"…fel sefydliad elusennol, bydd yn gallu codi arian trwy apeliadau elusennol. Yn anochel, bydd hyn yn cymryd amser ac un o'r heriau fydd rheoli'r gwaith o ddatblygu cyfleusterau preswyl newydd dros gyfnod estynedig."

48 Fodd bynnag, er i'r gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes gynnal astudiaeth dichonolrwydd mewn perthynas â'r prosiect, roedd yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion a risgiau cyllidebol, y datblygiadau adeiladu, caffael tir ac ati. Nid oedd y tîm adolygu yn gallu dod o hyd i lawer o dystiolaeth bod unrhyw ffocws ar yr anawsterau a'r heriau cynhenid wrth reoli a gweithredu cyfleuster preswyl 52 wythnos - cartref plant i grŵp o blant ag ystod eang o batrymau ymddygiad a galluoedd heriol - ar ddechrau'r prosiect, na thrwy gydol ei oes. Felly, ni chafodd yr heriau a'r cymhlethdodau o ddatblygu a darparu ystod o adnoddau hynod arbenigol i blant ag awtistiaeth a'u teuluoedd ledled Gogledd Cymru eu profi'n llawn erioed.

Cydgynllunio a rheoli yn yr awdurdod lleol

49 Yn Sir Ddinbych, er i grŵp datblygu gael ei sefydlu ar gyfer y prosiect adeiladu, gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith cynnar a'r ymgynghori gan gyn gyfarwyddwr addysg ac uwch swyddog, ynghyd â'r pennaeth. Roedd y grŵp datblygu yn cynnwys y cyfarwyddwr addysg, uwch reolwr o'r gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes, y pennaeth, swyddogion o adran penseiri'r sir a chynrychiolydd o uned asedau eiddo y cyngor. Nid oedd unrhyw gynrychiolydd o'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol ar y grŵp datblygu ar y pryd, er y gofynnodd y grŵp llywio am i'r gyfarwyddiaeth hon gael ei chynnwys yn 2006. Mae tystiolaeth o ymgysylltiad cyfyngedig yn unig gan y gyfarwyddiaeth hon hyd fis Mawrth 2006, pan dderbyniodd y pennaeth gwasanaethau plant swydd fel cadeirydd y grŵp prosiect, a sefydlwyd gan y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro, gyda'r cyfrifoldeb o ystyried dyfodol Hyfrydle. Dywedwyd wrth y tîm adolygu mai hwn oedd y cais ffurfiol neu anffurfiol cyntaf a dderbyniwyd gan y pennaeth gwasanaethau plant i gyfrannu at y prosiect. Ym mis Tachwedd 2006, gofynnwyd i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol enwebu cynrychiolydd ar y bwrdd rheoli i fonitro a chefnogi Hyfrydle. Enwebodd y rheolwr NCH (Cartrefi Plant Cenedlaethol) o'r cartref plant arall yn Sir Ddinbych fel ei chynrychiolydd.

50 Er bod y cynllun busnes gwreiddiol yn cynnwys proffil ariannol priodol o'r prosiect, roedd y proffil hwn wedi'i seilio ar ragdybiaethau am y galw tebygol am leoedd nad oedd yn deillio o unrhyw asesiad manwl o'r farchnad. Roedd y cynllun hwn hefyd yn cydnabod na fyddai gan unrhyw unigolyn neu gyfarwyddiaeth unigol y medrau y byddai eu hangen i reoli'r prosiect hwn ac roedd yn argymell y dylid penodi rheolwr prosiect i reoli'r prosiect.

51 Nid oedd yr awdurdod yn llawn gwerthfawrogi'r heriau sy'n gysylltiedig â rhedeg cartref plant arbenigol. Fel arfer, mae plant sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau 52 wythnos yn cael eu hariannu'n rhannol gan y gwasanaethau cymdeithasol a phlant y gofelir amdanynt ydynt mewn gwirionedd y mae cyfrifoldebau statudol sylweddol ar eu cyfer. Mae hyn yn wahanol iawn i'r cyfrifoldeb o reoli cyfleuster preswyl 38 wythnos. Cyn agor Hyfrydle, nid oedd y cartref plant arall yn Sir Ddinbych yn cael ei reoli'n uniongyrchol gan yr awdurdod, ond yn cael ei reoli gan NCH ar ran yr awdurdod.

52 Pan roddwyd Deddf Safonau Gofal 2000 ar waith yn 2002, roedd rhaid i'r ddarpariaeth 38 wythnos fodloni Safonau Gofynnol Cenedlaethol newydd a byddai'n rhaid i'r ddarpariaeth 52 wythnos arfaethedig gofrestru fel cartref plant a gweithredu'n unol â hynny. Nid oedd swyddogion yr awdurdod lleol yn deall nac yn gwerthfawrogi'r mater diwethaf na'i oblygiadau yn llawn, a dim ond ar ôl cynnal

cyfarfod anffurfiol o'r cabinet ar 8 Gorffennaf 2008 y daeth hyn yn amlwg i aelodau'r cabinet.

53 Mae gorfod cofrestru Hyfrydle fel cartref plant wedi bod yn fater allweddol sydd wedi dilyn y gwaith o gynllunio a datblygu Hyfrydle. Mae gwahaniaethu'r cyfrifoldeb rheoli ar gyfer Hyfrydle oddi wrth weddill yr ysgol wedi creu tensiwn sydd wedi arwain at ddatblygu trefniadau rheoli cymhleth. Yn wir, anghydfod ynghylch trefniadau rheoli'r cyfleusterau preswyl a arweiniodd at chwalu'r berthynas rhwng Cyngor Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth Brondyffryn. Cadarnhaodd adroddiad i gabinet Cyngor Sir Ddinbych ar 24 Chwefror 2004 bryderon y pennaeth am y llinellau atebolrwydd a'r cyfrifoldebau rheoli rhanedig rhwng yr ysgol, y llywodraethwyr a'r Ymddiriedolaeth.

54 Mae'r trefniadau rheoli ar gyfer Hyfrydle wedi parhau'n gymhleth ac yn ddryslyd. Er i'r cyfleuster agor, mae rheolwr cofrestredig Hyfrydle wedi bod mewn sefyllfa anodd; mae ei swydd ddisgrifiad yn datgan ei fod yn atebol i'r pennaeth fel yr oedd yn wir yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, trosglwyddwyd cyfrifoldeb y rheolwr llinell i'r 'unigolyn cyfrifol', ond nid yw swydd ddisgrifiad presennol y rheolwr cofrestredig yn adlewyrchu'r newid hwnnw. Mae'r unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli'r cartref. Rhaid i'r unigolyn hwn fod â'r hynafedd digonol yn y sefydliad i fod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau prydlon ar ran y sefydliad. Rhaid iddo fod â'r awdurdod a'r adnoddau i weithredu canfyddiadau sy'n deillio o archwiliadau rheoleiddio, arolygu ac ansawdd. Mewn cyferbyniad â hyn, y rheolwr cofrestredig sydd â'r cyfrifoldeb gweithredol dros gartref plant, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros dderbyniadau.

55 Penodwyd dau wahanol swyddog o'r gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes i rôl yr unigolyn cyfrifol ers i Hyfrydle gael ei gofrestru ym mis Tachwedd 2007. Ymddeolodd yr unigolyn cyfrifol cyntaf y diwrnod ar ôl i Hyfrydle agor a derbyniwyd hysbysiad o ymadawiad yr ail unigolyn cyfrifol ym mis Mai 2008. Wedi hynny, nododd yr awdurdod ei fwriad i enwebu'r pennaeth gwasanaethau plant fel y (trydydd) unigolyn cyfrifol. Yn Hyfrydle, roedd yr unigolyn cyfrifol yn gyfrifol am arolygu'r gwaith o reoli'r cartref a chafodd y rheolwr cofrestredig oruchwyliaeth broffesiynol gan NCH gan nad oedd gan unrhyw un yn y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes y profiad perthnasol i ddarparu'r oruchwyliaeth honno. Mae'r trefniadau cymhleth hyn wedi creu mwy o densiwn a dryswch. Y pennaeth gwasanaethau plant sy'n goruchwylio'r rheolwr cofrestredig ar hyn o bryd.

56 Ym mis Tachwedd 2006, ymestynnwyd corff llywodraethol yr ysgol i ffurfio bwrdd rheoli a fyddai'n monitro ac yn cefnogi Hyfrydle. Gofynnwyd i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol enwebu cynrychiolydd ac enwebwyd y rheolwr NCH a oedd yn gyfrifol am y cartref plant arall a weithredir gan yr awdurdod. Yna, comisiynodd yr adran addysg y rheolwr NCH hwn i oruchwylio rheolwr cofrestredig Hyfrydle a chynnal yr ymweliadau statudol annibynnol. Mae'r tîm adolygu o'r farn y dylai'r ddau gyfrifoldeb hyn fod wedi'u hysgwyddo gan rywun o'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol, yn ddelfrydol.

57 Nododd y tîm adolygu dystiolaeth bellach o bryderon ynghylch diffyg cydlynu gwasanaeth i blant ar y cyd yn yr awdurdod lleol. Ym mis Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar "Ansawdd Awdurdod Lleol Sir Ddinbych; Rheolaeth

Strategol, Gwella Ysgolion, hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles ac anghenion dysgu ychwanegol" a nododd ddiffygion pwysig.

58 Dywedodd adroddiad Gorffennaf 2007:

"Nid oes strategaeth cynhwysiad gyffredinol a chydlynus i gysylltu anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiad cymdeithasol, yr agenda gwasanaethau plant a gwella ysgolion. Hefyd, nid oes gan yr awdurdod cyfan ddarlun cydlynus o'r canlyniadau ehangach ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn cyfyngu effaith gwaith da, ac weithiau da iawn, y gwasanaethau ADY. O ganlyniad, nid yw'r awdurdod yn gwybod costau mathau penodol o ddarpariaeth mewn perthynas â'r lefel angen.

Ni adolygwyd dull ariannu'r awdurdod ar gyfer lleoedd mewn ysgolion arbennig yn ddiweddar ac, o ganlyniad, nid yw'r fformiwla ariannu yn bodloni anghenion disgyblion unigol mewn ysgolion arbennig ar hyn o bryd."

59 O ganlyniad i'r adroddiad hwn, daeth yr awdurdod addysg yn destun protocol ymyrraeth weinidogol ac mae Estyn yn ymgymryd â rhaglen fonitro ar hyn o bryd. Nododd yr ymweliad monitro a gynhaliwyd ym mis Mai 2008 gynnydd wrth fynd i'r afael â gweithio ar y cyd a nododd: *'Rhoddodd swyddogion ar bob lefel yn y gwasanaeth addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol dystiolaeth o gyfathrebu gwell rhwng y gwasanaeth addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol.'*

Cynllunio ar gyfer partneriaeth gydag awdurdodau lleol Gogledd Cymru

60 Ym mis Ionawr 2004, cynghorwyd yr awdurdod na fyddai cyllid gan y Cynulliad a oedd yn dod i gyfanswm o £1.6 miliwn, a oedd yn cwmpasu'r swm a wariwyd eisoes gan yr awdurdod, yn cael ei ryddhau hyd nes y derbyniwyd copïau o'r cytundebau lefel gwasanaeth gan awdurdodau eraill, wedi'u llofnodi, yn eu hymrwymo i leoli plant yn yr unedau preswyl 38 wythnos a 52 wythnos. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru ac uwch reolwyr o Gyngor Sir Ddinbych, gan gynnwys y prif weithredwr, i drafod y materion hyn.

61 Er i awdurdodau ymrwymo eu hunain ar lafar mewn cyfarfod a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ac a fynychwyd gan swyddogion, ni ddaeth y tîm adolygu o hyd i unrhyw dystiolaeth bod yr awdurdodau wedi llofnodi'r cytundebau lefel gwasanaeth, heblaw un awdurdod. Hefyd, pe byddai'n destun her, mae'n bosibl na fyddai'r cytundeb lefel gwasanaeth a archwiliwyd gan y tîm adolygu yn rhwymo'r awdurdod hwn.

62 Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r ymgynghoriadau a'r trafodaethau dilynol ledled Gogledd Cymru gyda grŵp o swyddogion anghenion addysgol arbennig (AAA) ar gyfer awdurdodau addysg lleol Gogledd Cymru, sy'n ymgymryd â thrafodaethau a chyfranogiad cyfyngedig gyda chyrff perthnasol eraill. Mae hyn yn bwysig, gan fod cyllid ar gyfer lleoliadau 52 wythnos fel arfer yn cael ei rannu rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg ar sail ddwyrannol neu ddeiran. Byddai'r tîm adolygu wedi disgwyl i'r trafodaethau hyn, yn enwedig trafodaethau ynghylch trefniadau ariannu, gynnwys pennaeth y grŵp gwasanaethau plant sy'n cyfarfod yn rheolaidd ledled Gogledd Cymru.

Cynllunio ar gyfer partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Brondyffryn

63 Cafodd Ymddiriedolaeth Brondyffryn anawsterau wrth geisio codi arian ac o ganlyniad cafodd gyllid ychwanegol gan Gyngor Sir Ddinbych i'w galluogi i barhau â'i gweithgareddau. Awgrymodd Cyngor Sir Ddinbych y gallai fod yn bosibl defnyddio benthyca darbodus i symud y prosiect yn ei flaen ac arweiniodd hyn at drafodaethau hir. Y bwriad oedd rheoli'r unedau preswyl a chyfleusterau eraill trwy gwmni menter ar y cyd a fyddai'n cael ei ffurfio gan Ymddiriedolaeth Brondyffryn. Roedd hwn yn drefniant cymhleth a oedd yn mynnu manylebau clir ar gyfer y ddarpariaeth a rheolaeth addysgol a phreswyl.

64 O tua 2002, roedd cyfnod hir o geisio llunio trefniadau partneriaeth addas gydag Ymddiriedolaeth Brondyffryn ar gyfer darparu cyfleusterau preswyl 52 wythnos yn Hyfrydle. Roedd y comisiwn elusennau yn poeni am y trefniant hwn a chynhaliwyd nifer o gyfarfodydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyngor Sir Ddinbych, gan gynnwys y prif weithredwr a'r comisiwn elusennau, er mwyn datrys y mater hwn. Roedd mwyfwy o bryderon a thensiwn rhwng Cyngor Sir Ddinbych a'r Ymddiriedolaeth a gorfu i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd gynorthwyo yn hynny o beth. Fodd bynnag, ni chafodd y materion hyn eu datrys yn y pen draw ac, o ganlyniad, diddymwyd Ymddiriedolaeth Brondyffryn ym mis Mawrth 2004.

65 Ar ôl i Ymddiriedolaeth Brondyffryn gael ei diddymu, newidiodd y modd y cafodd y prosiect hwn ei symud yn ei flaen yn fawr. Ar ar yr adeg allweddol hon, ni wnaeth yr awdurdod achub ar y cyfle i adolygu ac arfarnu'r prosiect, er mwyn ailasesu hyfywedd a risgiau ariannol yr amryw linynnau o'r ddarpariaeth. Ni chynhaliwyd trosolwg gwrthrychol o'r amcanion. Yn lle hynny, ysgwyddodd Cyngor Sir Ddinbych y cyfrifoldeb am sicrhau y byddai'r unedau preswyl yn cael eu hadeiladu. Trwy dderbyn y risg fel y'i cynigiwyd yn wreiddiol, byddai'r awdurdod wedi rhannu'r risg trwy ymglymiad Ymddiriedolaeth Brondyffryn. Yn lle hynny, roedd y trefniadau newydd yn golygu mai Cyngor Sir Ddinbych yn unig fyddai'n gyfrifol am y risg ariannol i gyd. Roedd hefyd yn golygu y byddai'n rhai i'r awdurdod fynd heb fynediad at gyllid posibl gan ffynonellau elusennol a mynd i gostau datblygu ychwanegol. Rhoddwyd gwybod i'r cabinet am y risgiau hyn ym mis Medi 2004.

66 Ar ôl i Ymddiriedolaeth Brondyffryn gael ei diddymu, sefydlwyd Cymorth Cymunedol i Awtistiaeth yng Nghymru (C-SAW), sef grŵp cymorth rhieni, sy'n codi arian i gefnogi'r ddarpariaeth breswyl yn Ysgol Plas Brondyffryn.

Cynllunio ar gyfer partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru

67 Mae papurau ac adroddiadau cynnar sy'n ymwneud â'r prosiect hwn yn awgrymu bod y rhanddeiliaid yn Sir Ddinbych yn ystyried y gwaith o ddatblygu canolfan ragoriaeth ranbarthol yn bartneriaeth rhyngddyn nhw a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er nad yw'r tîm adolygu wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth glir bod Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Sir Ddinbych wedi rhoi trefniadau monitro ffurfiol ar waith ar gyfer y prosiect hwn, bu cyswllt rheolaidd rhwng swyddogion y Cynulliad a'r awdurdod trwy gydol y prosiect, gyda swyddogion yn ymweld â'r awdurdod hyd at saith gwaith y flwyddyn.

Rheoli risg

68 Ariannwyd y gwaith o ddatblygu'r unedau preswyl trwy fenthyca darbodus ond daeth yr awdurdod i gytundeb ag awdurdodau eraill y byddant yn talu ffioedd uwch er mwyn ad-dalu'r costau cyfalaf a dalwyd gan Gyngor Sir Ddinbych. Adroddwyd am hyn i'r cabinet ar 28 Medi 2004. Roedd yr awdurdod yn deall yn glir y risgiau a oedd yn gysylltiedig ag ymgymryd â'r fenter hon, ac yn eu derbyn. Mewn adroddiad i gabinet blaenorol ar 24 Chwefror 2004 pwysleisiwyd y canlynol, *"bydd y risg o danddefnyddio yn disgyn yn gyfan gwbl ar Gyngor Sir Ddinbych"*. Ac eto, ar 28 Medi 2004, cynghorodd yr adroddiad i'r un cabinet a ofynnodd am eu cytundeb i symud y cyfleusterau preswyl yn eu blaen, *"mae risg ariannol i'r Awdurdod os na chyrhaeddir y lefelau llenwi cynlluniedig. Gallai amseriad agor y cyfleusterau newydd effeithio ar refeniw, yn ogystal â nifer y lleoedd sy'n cael eu llenwi."* Roedd yr holl wybodaeth ariannol a gyflwynwyd i'r aelodau yn ei gwneud yn glir y byddai'r uned yn gweithredu mewn diffyg ariannol am y ddwy flynedd gyntaf ac am gyfnod hwy pe na fyddai digon o leoedd yn cael eu llenwi. Fodd bynnag, ni roddodd y cyngor ddigon o bwys i'r risg mewn perthynas â gweithredu cartref plant a sefydlwyd i ddarparu gwasanaeth i nifer sylweddol o gomisiynwyr ac awdurdodau ariannu, gan gynnwys chwe awdurdod gwasanaethau cymdeithasol a chwe bwrdd iechyd lleol.

Symud y prosiect ymlaen

69 Gadawodd y cyn gyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes, sef noddwr gwreiddiol y prosiect, yr awdurdod yn hydref 2004 a daeth y cyfarwyddwr adnoddau yn noddwr i'r prosiect. Ar yr adeg hon, penodwyd rheolwr i'r prosiect a dechreuodd weithio ar y prosiect ym mis Mawrth 2005. Secondiwyd uwch aelod o staff Ysgol Plas Brondyffryn i'r prosiect hefyd am ddau gyfnod ar wahân er mwyn helpu i ddatblygu'r safle a pharatoi polisïau, gweithdrefnau a dogfennau cysylltiedig ar gyfer y cais i gofrestru ag AGGCC. Ym mis Medi 2006, pan gwblhawyd y gwaith adeiladu, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am yr adeilad a'r prosiect yn ôl i'r gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes a daeth y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes yn noddwr i'r prosiect.

70 Roedd cymhlethdod y trefniadau ariannol, y trefniadau cyfreithiol a'r trafodaethau maith yn ymwneud â rhoi'r safle yn cynnwys gwaith ychwanegol a chymhleth i'r awdurdod. Comisiynwyd cwmnïau allanol i wneud gwaith dylunio a rhywfaint o waith cyfreithiol a oedd yn golygu bod llawer o'r rheiny a oedd ynghlwm wrth y prosiect yn rhoi'r rhan fwyaf o'u ffocws a'u sylw i'r trefniadau ariannol a'r prosiect adeiladu. Ni chydnabuwyd bod yr arbenigedd yr oedd ei angen ar gyfer gweithredu a rheoli cartref plant arbenigol yn ffactor hanfodol o ran cyflawni canlyniad cadarnhaol. Arweiniodd yr esgeulustod hwn at fwy o oedi ac anawsterau dros y flwyddyn ddilynol.

71 Rhannwyd pryderon gyda'r tîm adolygu ynghylch diffyg ymroddiad ac ymglymiad rheolwyr o'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol wrth y prosiect hwn. Dywedodd uwch reolwyr yn y gyfarwyddiaeth nad oedd y prosiect hwn yn flaenoriaeth iddynt tan yn ddiweddar iawn. Rhwng 2004 a 2006, roeddent yn destun craffu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a oedd ag ystod o bryderon ynghylch gwasanaethau i blant, gan gynnwys erlyn yr awdurdod am redeg cartref plant heb ei gofrestru, adroddiad beirniadol ar ei wasanaethau maethu a materion pwysig yn ymwneud â'r gweithlu. Roedd uwch reolwyr yn canolbwyntio eu sylw ar y problemau mewnol yn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol.

72 Fodd bynnag, mae'n amlwg i'r tîm adolygu bod y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn poeni am y prosiect hwn. Mae hyn yn deillio o ddilema go iawn a phryderon a fynegwyd gan uwch reolwyr ynghylch mynediad cyfartal at wasanaethau i blant ag anableddau ac anghenion arbennig eraill.

73 Yn 2006, roedd anghydfod difrifol o ganlyniad i farn y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes y dylai'r gwasanaethau cymdeithasol i blant a'r bwrdd iechyd lleol gyfrannu at gost y pedwar plentyn o Sir Ddinbych a oedd yn cael gofal seibiant yn yr uned breswyl 38 wythnos yng Ngerddi Glasfryn. Tan hynny, y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes a oedd wedi ariannu eu lleoliadau. Cafodd hyn ganlyniadau difrifol i gyllidebau yn y gwasanaeth i blant gan y bu raid iddynt ddod o hyd i gost annisgwyl o £134,000. I uwch reolwyr yn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol, roedd hyn yn tanlinellu'r materion a oedd yn ymwneud â mynediad cyfartal at ofal seibiant oherwydd natur arbenigol yr adnodd; roedd mwy o wasanaethau ar gael i blant awtistig nag i blant ag anableddau eraill y gallai eu teuluoedd fod ag angen mwy brys am ofal seibiant.

74 Nid oedd gan y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes brofiad o redeg cartref plant, fel sy'n amlwg, er enghraifft, o'r ffaith bod yr adran adnoddau dynol wedi seilio'r swydd ddisgrifiadau a'r cyflogau ar rai staff mewn cartrefi gofal preswyl i'r henoed. Oherwydd hyn, ni osodwyd cyflogau cystadleuol i reolwyr ac arweiniodd hyn at anawsterau wrth geisio recriwtio staff. Pan benodwyd staff o'r diwedd, darganfuwyd nad oedd y penodiadau yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol, a arweiniodd at oedi pellach wrth agor Hyfrydle. Dechreuodd ddau reolwr arfaethedig i'r uned yn eu swyddi ym mis Medi 2006. Y rheolwr presennol yn unig a gofrestrwyd gan nad oedd y llall yn bodloni'r lefel ofynnol o brofiad na chymwysterau.

75 Cymerodd y broses gofrestru fwy o amser nag y disgwyliwyd oherwydd, adeg hynny, nid oedd y rheolwr cofrestredig arfaethedig yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol newydd a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2007, er y byddai wedi bod yn bosibl iddo gofrestru ag AGGCC (ar yr amod ei fod yn ennill y cymwysterau perthnasol) pe byddai'r cais wedi cael ei wneud ynghynt. Roedd y rheoliadau newydd a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2007 yn gwneud y cymwysterau hyn yn ofyniad statudol.

76 Bu oedi pellach wrth i'r gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes baratoi i gofrestru Hyfrydle fel cartref plant a daeth y goblygiadau a 'r cyfrifoldebau o redeg cartref plant yn amlwg. Roedd datblygu a gweithredu Hyfrydle yn llwyddiannus yn mynnu perchenogaeth a chyfrifoldeb corfforaethol nad oedd ar waith bryd hynny. Roedd yn anodd iawn i'r gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes enwebu unigolyn cyfrifol, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn.

77 O ganlyniad, yn hytrach na chyflwyno cais i AGGCC i gofrestru Hyfrydle ym mis Rhagfyr 2006 fel y cynlluniwyd yn wreiddiol; ni chyflwynwyd y cais tan fis Mawrth 2007. Ni agorodd Hyfrydle tan fis Tachwedd 2007. Nid yw'r tîm adolygu wedi gallu nodi'r rhesymau penodol dros yr oedi tyngedfennol hwn o dri i bedwar mis, ond mae tystiolaeth o gofnodion cofrestru a chyfweliadau yn awgrymu bod yr awdurdod wedi cael trafferth wrth geisio enwi unigolyn cyfrifol a recriwtio staff gofal. Yn ogystal â'u problemau wrth geisio enwi unigolyn cyfrifol, nid oedd dogfennau allweddol e.e. y Datganiad o Bwrpas, yn bodloni'r gofynion angenrheidiol. Hefyd, cafwyd anawsterau

sylweddol wrth geisio llunio strwythurau staffio priodol oherwydd yr anawsterau wrth recriwtio staff gofal.

78 Cafodd y modd y rheolwyd y broses gofrestru gan y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes wrth fodloni'r gofynion angenrheidiol effaith sylweddol ar ymarferoldeb ariannol Hyfrydle. Derbyniodd AGGCC y cais i gofrestru y diwrnod ar ôl iddynt dderbyn cais gan ddarparwr annibynnol i gofrestru ysgol annibynnol gyda chartref plant i 23 o blant (gyda'r opsiwn o gynyddu'r nifer hon i 30) am 52 wythnos y flwyddyn. Roedd y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes yn ymwybodol o'r datblygiad hwn, gan i ddirprwy bennaeth Ysgol Plas Brondyffryn adael ei swydd ym mis Hydref 2006 i fod yn bennaeth yn yr ysgol annibynnol newydd, a gadawodd y pennaeth gofal a staff gofal eraill o Gerddi Glasfryn, yr uned breswyl 38 wythnos, i weithio yn yr ysgol newydd hon hefyd. Roedd hyn yn golygu y collodd y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes arbenigedd a phrofiad o ofalu am blant awtistig. Roedd yr aelodau hyn o'r staff wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o baratoi'r cais ar gyfer cofrestru Hyfrydle.

79 Er gwaethaf colli staff i'r ysgol annibynnol newydd yn yr ardal, a fyddai'n cystadlu'n uniongyrchol ag Ysgol Plas Brondyffryn a'i chyfleusterau preswyl, ni chynhaliwyd adolygiad o sefyllfa'r awdurdod lleol na'r prosiect bryd hynny. Hwn oedd yr ail newid mawr mewn amgylchiadau wrth ddatblygu'r prosiect hwn, gan roi cyfle amlwg i'w adolygu, ond ni chymerwyd y camau hyn. Mewn gwirionedd, roedd swyddogion yr awdurdod o'r farn y byddai'r uned yn denu lleoliadau o hyd gan y byddai'n gweithredu mewn marchnad 'arbenigol' ac yn cynnig lleoliadau i bobl ifanc ag ymddygiad heriol iawn. O ystyried yr anawsterau diweddar wrth recriwtio rheolwyr profiadol a'r problemau wrth ddenu staff gofal, roedd y farn hon yn optimistaidd.

80 Roedd yr oedi terfynol hwn yn dyngedfennol gan i'r ysgol annibynnol a'r cartref plant newydd yn yr ardal agor ym mis Medi 2007, deufis cyn i Hyfrydle agor ym mis Tachwedd 2007. Dywedwyd wrth y tîm adolygu y byddai cyfanswm o naw o blant gydag awtistiaeth yn awdurdodau Gogledd Cymru wedi'u rhoi, neu'n cael eu rhoi, mewn lleoliadau preswyl 52 wythnos yn Hyfrydle neu'r ysgol annibynnol newydd rhwng mis Medi 2007 a mis Hydref 2008. Mae'n bosibl na fyddai pob un o'r plant hyn yn addas ar gyfer lleoliad yn Hyfrydle, ond naw o blant oedd y nifer a gyfrifwyd gan yr awdurdod lleol i wneud Hyfrydle yn ymarferol yn ariannol.

81 Yn sgil y problemau recriwtio, penderfynodd yr awdurdod y dylid cofrestru Hyfrydle i dderbyn chwe lleoliad i ddechrau, gyda'r opsiwn o amrywio'r cofrestriad ar ôl cytuno ar fwy o leoliadau a phenodi a hyfforddi nifer ddigonol o staff ychwanegol. Hefyd, daeth yr her o ailfodelu adeilad rhestredig i'r amlwg unwaith eto ar ôl penderfynu bod un o'r unedau yn Hyfrydle yn rhy fach ar gyfer pedwar o breswylwyr, a arweiniodd at y penderfyniad i leihau'r nifer i dri, gan leihau nifer y plant y gellir eu derbyn yn Hyfrydle o 12 i 11.

82 Erbyn i Hyfrydle agor, roedd yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol iawn, gyda'r gystadleuaeth ar drothwy'r drws, a oedd yn amgylchedd gwahanol iawn i'r un pan luniwyd y prosiect saith mlynedd ynghynt yn 2000.

83 Roedd y cyllid a oedd ar gael i fuddsoddi mewn offer a chyfleusterau yn Hyfrydle yn gyfyng hefyd, ac nid oedd gan y rheolwr gyllideb ddirprwyedig, er bod ganddo lwfans wythnosol. Roedd gwahaniaeth mawr rhwng Hyfrydle a'r ysgol annibynnol newydd

gerllaw a oedd â neuadd chwaraeon, sinema a gerddi ar wahân ar gyfer pob uned. Adroddodd staff fod *"teuluoedd a gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r uned byth yn dychwelyd ar ôl iddynt ymweld â'r ddarpariaeth annibynnol."* Hefyd, dechreuodd diffyg profiad y staff a oedd yn gweithio gyda'r plant awtistig i'r amlwg pan adroddwyd am nifer anghymesur o achosion o rwystro plant yn gorfforol yn yr uned breswyl, er gwaethaf y nifer fawr o reolwyr yn yr uned. Mynegodd aelodau o'r tîm adolygu a aeth i ymweld â'r uned, a'r rheolwr NCH a gyflogwyd i roi goruchwyliaeth broffesiynol ac ymgymryd ag ymweliadau annibynnol statudol, bryder ynghylch hyn a'r diffyg *"personoli"* yn yr unedau a oedd yn creu naws sefydliadol yn y cartref plant.

Cylch gorchwyl 2

Darparu Dadansoddiad Llwybr Critigol o'r cyfnod rhwng dechrau mis Tachwedd 2007 a Gorffennaf 2008 pan benderfynwyd cau'r cartref plant (Hyfrydle)

Cronoleg o'r digwyddiadau rhwng Tachwedd 2007 a Gorffennaf 2008

84 **5 Tachwedd 2007:** Agorodd Hyfrydle ac fe gofrestrodd fel cartref plant i chwe phlentyn, ond bryd hynny, dau breswylydd yn unig a dderbyniwyd i'r uned. Ar yr un pryd, roedd newidiadau sylweddol ar lefel y cyngor yn Sir Ddinbych.

85 **15 Tachwedd 2007:** Cynhaliwyd cyfarfod y bwrdd moderneiddio addysg lle y trafodwyd hyfywedd ariannol Hyfrydle.

86 **27 Tachwedd 2007:** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf cabinet Cyngor Sir Ddinbych a oedd newydd ei ffurfio. Hwn oedd cyfarfod cyntaf arweinydd newydd y cyngor hefyd, a oedd hefyd yn aelod arwain newydd dros addysg a dysgu gydol oes. Roedd y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro hefyd yn bresennol am y tro cyntaf.

87 Un o'r eitemau brys a drafodwyd yn y cyfarfod hwn oedd y gyllideb refeniw a'r cynllun cyfalaf cryno ar gyfer 2008 i 2008. Cafwyd trafodaeth hir am y gorwariant amcanol a nodwyd ar Ysgol Plas Brondyffryn a oedd yn deillio o'r cyfleuster preswyl 52 wythnos yn Hyfrydle. Gan mai dau leoliad yn unig a oedd yn yr Uned ar y pryd, roedd hyn yn golygu gorwariant o £277,000 gyda cholled amcanol pellach o £200,000 yn y flwyddyn ariannol nesaf. Nodwyd bod y cyfleuster yn disgwyl gwargedion blynyddol o 2009/2010 ymlaen.

88 Argymhellodd y cabinet y dylid cymryd camau gweithredu brys i lenwi'r lleoedd gwag yn yr uned breswyl 52 wythnos yn Ysgol Plas Brondyffryn.

89 **30 Tachwedd 2007:** Amlygodd y pennaeth cynhwysiad y cyfleusterau y gallai'r awdurdod eu cynnig yn Ysgol Plas Brondyffryn mewn cyfarfod o'r Grŵp Cynhwysiad Cymru Gyfan.

90 **5 Rhagfyr 2007:** Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro a chadeirydd llywodraethwyr Ysgol Plas Brondyffryn, pan drafodwyd hyfywedd ariannol Hyfrydle.

91 **18 Rhagfyr 2007:** Yn yr adroddiad monitro ar y gyllideb refeniw, nododd y cabinet orwariant amcanol sylweddol yn y gyfarwyddiaeth addysg; roedd rhywfaint o'r gorwariant hwn o ganlyniad i'r diffyg lleoliadau yn Hyfrydle. Cadarnhaodd yr arweinydd fod y gorwariant mewn perthynas â'r cyfleuster preswyl 52 wythnos yn Ysgol Plas Brondyffryn yn annerbyniol a'i fod yn cael ei adolygu ar y pryd. Cynghorodd y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro i'r aelodau fod angen asesu graddau'r hyder y gellir ei roi yn y rhagdybiaethau yn ymwneud â'r gyfradd lenwi y flwyddyn ddilynol.

92 Ar ôl y cyfarfod hwn, rhoddodd y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro y dasg i'r pennaeth partneriaethau a chynhwysiad ar y pryd o adolygu'r defnydd o

Hyfrydle a'r ddarpariaeth 38 wythnos. Rhoddodd hithau ragamcaniad o niferoedd y disgyblion dros y ddwy flynedd nesaf (gweler paragraff 92).

93 **10 Ionawr 2008:** Mewn cyfarfod rhwng swyddogion y Cynulliad ac uwch reolwyr o awdurdod lleol Sir Ddinbych, hysbyswyd y Cynulliad o'r anawsterau a oedd yn dod i'r amlwg gyda Hyfrydle. Dau le yn unig a oedd wedi'u llenwi, o'u cymharu â'r chwe lle a gofrestrwyd. Cynghorodd y gyfarwyddiaeth dysgu gydol oes y byddai hyn yn arwain at ddiffyg o £277,000 yn 2007-08 a fyddai'n codi i £562,141 erbyn diwedd 2008-2009, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn gorfod ysgwyddo'r gost lawn. Wedi hynny, roedd y rhagamcaniadau yn awgrymu pe gellir cynyddu'r gyfradd lenwi i naw, byddai'r cyllid yn ôl yn y du erbyn 2010-2011. Cadarnhaodd y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro nad oedd unrhyw gytundebau lefel gwasanaeth ar waith gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru. Gofynnodd yr awdurdod i Lywodraeth y Cynulliad ystyried ariannu'r diffyg hwn a gofynnodd hefyd am gymorth y Gweinidog i annog awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru i ddefnyddio'r ddarpariaeth.

94 **16 Ionawr 2008:** Ysgrifennwyd llythyr at yr awdurdod yn cadarnhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru eisoes wedi buddsoddi'n sylweddol yn y prosiect a bod y Gweinidog yn annhebygol o gytuno i unrhyw gyfraniadau ariannol eraill. Roedd y llythyr hefyd yn cadarnhau'r cynnig y byddai'r awdurdod yn sicrhau bod swyddogion AAA ledled Gogledd Cymru yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cyfleuster hwn. Byddai'r awdurdod hefyd yn cynnal trafodaethau ledled rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr. Dywedodd y Cynulliad hefyd nad oedd yn briodol gofyn i'r Gweinidog ysgrifennu at awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru i argymell un ddarpariaeth yn fwy nag un arall.

95 **4 Chwefror 2008:** Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch yr opsiynau ar gyfer dyfodol Hyfrydle gyda chorff llywodraethol Ysgol Plas Brondyffryn. Pleidleisiodd y llywodraethwyr ac roeddent yn unfrydol yn erbyn cau'r ddarpariaeth.

96 **5 Chwefror 2008:** Cynhaliwyd cyfarfod gydag ymddiriedolwyr Cymorth Cymunedol ar gyfer Awtistiaeth yng Nghymru (C-SAW); mynegwyd eu pryderon ynghylch y posibilrwydd o gau Hyfrydle ac ysgrifennwyd at y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro ynghylch hyn yn ddiweddarach.

97 **7 Chwefror 2008:** Cynhaliwyd cyfarfod yn cynnwys swyddogion y Cynulliad, aelodau etholedig, yr ysgol, swyddogion y gyfarwyddiaeth addysg a dysgu gydol oes a swyddogion y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion. Cafwyd trafodaeth faith am yr holl bosibiliadau a'r opsiynau. Nodwyd tri opsiwn:

i. cynnal y cyfleuster presennol;

ii. lleihau'r cyfleuster i uned sengl; a

iii. chau'r cyfleuster yn gyfan gwbl.

98 **12 Chwefror 2008:** Anfonodd Llywodraeth Cynulliad Cymru lythyr at yr awdurdod i gadarnhau cynnwys y trafodaethau a mynegwyd pryderon ynghylch yr opsiwn o gau'r cyfleuster. Mae'r llythyr yn nodi y gallai fod angen i'r Cynulliad ystyried "adfachu" rhywfaint o'i fuddsoddiad ariannol oni chytunir ar ddewis arall addas. Mae rhai o'r

rheiny a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn wedi dweud wrth y tîm adolygu fod ganddynt farnau gwahanol am ganlyniad y drafodaeth hon.

99 **19 Chwefror 2008:** Cyflwynwyd papur a baratowyd gan swyddogion yn yr awdurdod lleol i'r cabinet yn argymell cau'r ddarpariaeth 52-wythnos yng nghartref plant Hyfrydle, ar 1 Medi 2008 fan bellaf. Hefyd, gofynnwyd i aelodau sylwi ar yr angen i ddatblygu strategaeth ymadael ar gyfer y gwasanaeth a fyddai'n diogelu budd y trigolion presennol ynghyd â sefyllfa ariannol y cyngor.

100 Rhoddodd y papur wybod i aelodau nad oedd gan bump o'r chwech (Sir Ddinbych oedd y chweched) awdurdod yng ngogledd Cymru fudd gweithredol na phobl ifanc i'w henwebu ar gyfer gofal 52-wythnos ac, ar yr adeg honno, nid oedd unrhyw geisiadau eraill 'yn yr arfaeth'. Penderfynodd y cabinet fod angen gwybodaeth fanylach a chytunwyd i sefydlu grŵp amlddisgyblaethol i ddatblygu opsiwn hyfyw yn ariannol ar gyfer gwneud y defnydd gorau'r o'r cyfleuster ar gyfer plant, pobl ifanc neu oedolion agored i niwed yr oedd anghenion cymhleth neu luosog ganddynt. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys swyddogion o addysg, gwasanaethau cymdeithasol, cyllid, rheoli prosiectau, ac iechyd, ynghyd â chynrychiolydd o gorff llywodraethol cartref plant Hyfrydle. Mynegodd arweinydd y cyngor yn glir fod rhaid i'r penderfyniad ynghylch y cyfleuster gael ei wneud yn ystod tymor y cyngor presennol.

101 Yn y cyfamser, ymwelodd yr arweinydd a'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro â'r safle, a gwnaeth y cyfleuster argraff dda arnynt. Cyfarfu'r arweinydd â swyddog y wasg er mwyn trafod marchnata'r cyfleuster.

102 **4 Mawrth 2008:** Cyfarfu'r grŵp amlddisgyblaethol, ac fe'i cadeiriwyd gan y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro. Yn bresennol roedd aelodau allweddol o staff addysg a chyllid, pennaeth Ysgol Plas Brondyffryn, y pennaeth gofal yn Hyfrydle, uwch gynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych, y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a'r cyfarwyddwr gwasanaethau plant. Yn ystod y cyfarfod, adroddwyd bod yr holl asiantaethau yn cytuno bod Hyfrydle yn gyfleuster gwerthfawr y dylid ei gadw ar agor os oedd modd. Cytunwyd hefyd na ellid cyfiawnhau'r ddarpariaeth dim ond ar gyfer plant ag awtistiaeth, ond yn hytrach bod angen i'r asiantaethau a oedd yn gysylltiedig fod ychydig yn fwy creadigol o ran yr ystod o anghenion cymhleth y gellid darparu ar eu cyfer yno. Cytunwyd mai'r defnydd mwyaf hyfyw arall ar gyfer Hyfrydle oedd archwilio'r opsiynau i'r darpariaethau fodloni anghenion pobl ifanc ag anhawsterau dysgu difrifol gan barhau i gyfrannu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth, os oedd hynny'n bosibl.

103 Rhoddwyd gwybod i'r cyfarfod bod y cynnig wedi cael ei drafod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod yr awdurdod wedi cael gwybod y byddai newid dynodiad o gartref i blant ag awtistiaeth i gartref i blant ag awtistiaeth ac anghenion cymhleth eraill yn bosibl. Yn dilyn hynny, rhoddwyd y dasg o gadeirio'r grŵp prosiect, a chyflwyno cynllun busnes cynhwysfawr ar gyfer defnyddio Hyfrydle yn y dyfodol erbyn 1 Medi 2008, i'r pennaeth gwasanaethau plant a theuluoedd. Cafodd y cyfarfod wybod hefyd ar y pryd hwnnw fod amcangyfrif gwell o leoliadau ar gyfer 2008-2009, gan ddangos cynnydd yn y niferoedd i chwech o fis Medi 2008. Mae'n bosibl mai o ganlyniad i ymgyrch farchnata ddiweddar y bu'r cynnydd hwn. Fodd bynnag, byddai'r cartref yn parhau i ragamcanu gorwariant yn 2008-2009 oherwydd amcangyfrifwyd y byddai angen naw o blant i gyrraedd trothwy elw.

104 **6 Mawrth 2008:** Anfonwyd neges e-bost at y pennaeth cefnogi disgyblion yn y Cynulliad gan bennaeth partneriaeth a chynhwysiant y pryd hwnnw yn Sir Ddinbych yn awgrymu, yng ngoleuni penderfyniadau *"a wnaed gan yr holl bartneriaid"* y *"bydd Hyfrydle yn parhau'n gartref i blant a phobl ifanc ac y bydd yn debygol (gobeithio) o gyrraedd 5/6 o breswylwyr erbyn yr adeg pan fydd y cynllun busnes yn barod yn y tymor byr"*. Ychwanegodd hefyd *"A allaf i hefyd ddweud nad oedd cau ar yr agenda."* Roedd y cyfeiriad diwethaf hwn wedi rhoi rhywfaint o sicrwydd i swyddogion y Cynulliad y byddai Hyfrydle yn hyfyw.

105 **Mawrth 2008:** Gwnaeth Cyngor Swydd Gaerlleon gais am le yn Hyfrydle i berson ifanc. Ni ddywedwyd wrth swyddogion o Swydd Gaerlleon fod y ddarpariaeth yn cael ei hadolygu. I'r gwrthwyneb, cawsant eu hannog i fynd ymlaen â'r gwaith papur ffurfiol a chynllun pontio ar gyfer mynediad graddol y person ifanc.

106 **7 Mai 2008:** Cyfarfu'r grŵp prosiect traws-gyfarwyddiaeth am y tro cyntaf. Fe'i noddwyd gan y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro ac fe'i cadeiriwyd gan y pennaeth gwasanaethau plant ac fe'i rheolwyd gan y rheolwr perfformiad ac ansawdd. Yn ogystal, roedd tîm y prosiect yn cynnwys y staff canlynol o sir Ddinbych:

- y pennaeth partneriaethau a chynhwysiant dros dro;
- pennaeth Plas Brondyffryn;
- rheolwr cofrestredig, Hyfrydle;
- dirprwy reolwr cynorthwyol, Hyfrydle;
- rheolwr busnes, Ysgol Plas Brondyffryn;
- swyddog arwain ADY; a
- chyfrifydd rheoli.

107 Cytunwyd ar friff y grŵp prosiect i ystyried pedwar opsiwn ar gyfer Hyfrydle:

- parhau'n gyfleuster preswyl 52-wythnos ar gyfer pobl ifanc sydd ag AHA (h.y. cadw'r defnydd presennol);
- ymestyn y datganiad o fwriad i gynnwys cleientiaid sydd ag anawsterau dysgu difrifol (ADD);
- targedu lleoliadau y tu allan i'r sir o Loegr; ac
- ystyried ei chau.

108 **22 Mai 2008:** Cyfarfod rhwng noddwr y prosiect (y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro), y pennaeth gwasanaethau plant (cadeirydd y prosiect) a'r rheolwr prosiect, rheolwr perfformiad yr adran gwasanaethau cymdeithasol i gadarnhau dogfen cychwyn y prosiect.

109 **27 Mai 2008:** Cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp prosiect. Roedd dogfen cychwyn drafft y prosiect a gyflwynwyd yn datgan bod yr opsiynau a gyhoeddwyd, yn amodol ar fodloni gofynion cofrestru AGGCC, ar gael i'r tîm prosiect i'w hystyried, gan gynnwys cau'r ddarpariaeth breswyl.

110 **12 Mehefin 2008:** Cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp prosiect. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar faterion allweddol: yr holiadur i sicrhau barnau swyddogion AAA a swyddogion lleoli gwasanaethau cymdeithasol a darpar leoliadau plant a staffio.

111 **26 Mehefin 2008:** Cyfarfu'r cyfarwyddwr corfforaethol dysgu gydol oes dros dro â swyddog o Lywodraeth Cynulliad Cymru i drafod Hyfrydle.

112 **30 Mehefin 2008:** Cyflwynwyd tri chytundeb ar gyfer trigolion newydd i'r pennaeth partneriaethau a chynhwysiant dros dro gan reolwr cofrestredig Hyfrydle. Bwriadwyd i'r plant ymgymryd â'u lleoedd ym mis Medi 2008.

113 **2 Gorffennaf 2008:** Yng nghyfarfod y grŵp prosiect, cadarnhawyd bod dau leoliad newydd ar gyfer Hyfrydle yn dechrau yng nghanol mis Gorffennaf 2008.

114 **3 Gorffennaf 2008:** Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro, y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, y pennaeth cynhwysiant dros dro, y pennaeth gwasanaethau plant a'r rheolwr prosiect i drafod lleoliadau a hyfywedd Hyfrydle. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, a oedd yn awgrymu mai'r unig opsiwn realistig oedd cau, ac o ystyried y lleoliad oedd ar fin digwydd ar gyfer dau o blant ganol mis Gorffennaf, cytunwyd i symud ymlaen ag ysgrifennu'r achos busnes dros gau er mwyn ei gyflwyno i gabinet anffurfiol ei drafod yr wythnos ganlynol.

115 **3 Gorffennaf 2008:** Cadarnhaodd cyfarfod panel mynediad Ysgol Plas Brondyffryn i swyddog awdurdod lleol o Sir y Fflint fod lle ar gael yn Hyfrydle ar gyfer darpar breswylydd.

116 **4 Gorffennaf 2008:** Cyfarfu swyddog o Sir Ddinbych â swyddogion AAA o bob cwr o ogledd Cymru i drafod eu hymatebion i'r arolwg a ddosbarthwyd yn flaenorol i geisio nodi darpar drigolion ar gyfer Hyfrydle. Roedd y swyddog hwn yn aelod o'r grŵp prosiect, ond nid oedd ganddo unrhyw wybodaeth bod penderfyniad i argymell cau eisoes wedi cael ei wneud y diwrnod cynt.

117 **8 Gorffennaf 2008:** Yn ystod y bore, cafodd cyfarfod cabinet anffurfiol ei alw. Cyflwynwyd achos busnes drafft yn y cyfarfod gan noddwr y prosiect, a oedd yn argymell cau. Gofynnwyd i aelodau a fyddent yn cefnogi achos busnes ar gyfer cau Hyfrydle petai'n cael ei gyflwyno i gabinet ffurfiol. Ni wnaed unrhyw gofnodion yn y cyfarfod hwn.

118 Yn ystod y prynhawn, cafodd cynghorwyr lleol a chadeirydd newydd y pwyllgor craffu dysgu gydol oes eu galw i gyfarfod gyda chyfarwyddwr corfforaethol gwasanaethau cymdeithasol a thai i egluro'r argymhelliad i'r cabinet i gau Hyfrydle.

119 Galwodd y pennaeth gwasanaethau plant gyfarfod o staff Hyfrydle. Rhoddwyd gwybod i reolwyr Hyfrydle bod y cabinet wedi awgrymu y byddent yn cefnogi penderfyniad i gau, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r cabinet ar 15 Gorffennaf 2008. Rhoddwyd cyngor i staff Hyfrydle y gallent gael eu diswyddo.

120 Dosbarthwyd datganiad i'r wasg gan yr awdurdod lleol yn datgan *"bydd y cabinet yn argymell cau Hyfrydle, y cyfleuster 52-wythnos ar gyfer disgyblion sy'n mynychu Ysgol Plas Brondyffryn, yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf".*

121 Cafodd corff llywodraethol Ysgol Plas Brondyffryn ei alw i gyfarfod gyda'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro am 5:00 pm yn Rhuthun. Yn y cyfarfod hwn, dywedwyd wrth y llywodraethwyr y byddai Hyfrydle'n cau.

122 Gofynnwyd i weithiwr cymdeithasol un o'r plant preswyl i roi gwybod i rieni bod y cartref yn cau, a gwnaed hyn yn hwyr y prynhawn hwnnw. Rhoddodd aelod o staff Hyfrydle wybod dros y ffôn i riant un person ifanc, a oedd ar fin cael mynediad, y byddai'r cartref yn cau. Roedd gweithwyr cymdeithasol ar gyfer y plentyn arall a oedd yn preswylio yn Hyfrydle a gweithwyr cymdeithasol y ddau berson ifanc arall a oedd yn mynd i gael mynediad yno wedi rhoi gwybod i'r rhieni ar 8-9 Gorffennaf.

123 **8 Gorffennaf 2008:** Rhoddwyd gwybod i swyddog AAA AALl Sir y Fflint na fyddai lleoliad arfaethedig darpar gleient yn Hyfrydle'n gallu mynd yn ei flaen.

124 **9 Gorffennaf 2008:** Cafodd swyddog gwaith achosion AAA yn Swydd Gaerlleon wybod mewn galwad ffôn gan riant bod y ddarpariaeth yn Hyfrydle yn cau.

125 **15 Gorffennaf 2008:** Pleidleisiodd y cabinet dros gau Hyfrydle o chwe phleidlais i dri.

126 **18 Gorffennaf 2008:** Cafodd awdurdod lleol Swydd Gaerlleon wybod trwy lythyr gan bennaeth gwasanaethau plant, Sir Ddinbych, am y penderfyniad i gau Hyfrydle.

127 **21 Gorffennaf 2008:** Cafodd pennaeth gwasanaethau plant Sir y Fflint wybod trwy lythyr gan bennaeth gwasanaethau plant, Sir Ddinbych, am y penderfyniad i gau Hyfrydle.

128 **16 Awst 2008:** Anfonwyd copi o'r achos busnes yn cadarnhau'r penderfyniad i gau cartref plant Hyfrydle at brif weithredwyr ar hyd gogledd Cymru.

Dadansoddiad llwybr critigol

129 Ym mis Medi 2006 tynnodd y pennaeth gwasanaeth plant sylw'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a thai, at yr ystyriaethau a oedd yn gysylltiedig ag ariannu lleoliadau hostel yng Ngerddi Glasfryn, Ysgol Plas Brondyffryn. Mynegodd bryderon ynghylch:

- effaith y trefniadau cyllido ar gyfer aros dros nos yng Ngerddi Glasfryn ar gyllideb y gwasanaethau plant;
- yr anghydraddoldeb o ran mynediad i ofal seibiant ar gyfer plant ag anableddau heblaw am AHA ar draws Sir Ddinbych; a'r
- posibilrwydd y byddai'r un ystyriaethau hyn yn codi mewn perthynas â lleoliadau 52 wythnos yn Hyfrydle ymhen amser.

130 Nid yw'r materion corfforaethol hyn erioed wedi cael eu datrys yn llwyr. Clywodd y tîm adolygu dystiolaeth gan sawl ffynhonnell sy'n awgrymu bod tensiynau parhaus o

hyd rhwng y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol ynghylch ariannu arosiadau dros nos yng Ngerddi Glasfryn. Fodd bynnag, mae'r awdurdod yn dechrau gwneud cynnydd yn y trefniadau ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd mewn perthynas â chynllunio gwasanaethau ar gyfer plant sydd ag anableddau.

131 Fel y mae tystiolaeth flaenorol yn yr adroddiad hwn yn dangos, roedd arolygiad Estyn o awdurdod lleol Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2007 yn hynod feirniadol o ansawdd rheolaeth strategol yr awdurdod, gan gynnwys y rheolaeth ar gyllid a gweithio ar y cyd rhwng yr adrannau addysg a gwasanaethau cymdeithasol er y bu rhywfaint o gynnydd diweddar yn hyn o beth. Roedd adroddiad Gorffennaf 2007 yn cydnabod y canlynol:

"Mae *nodweddion rhagorol yn narpariaeth yr awdurdod ar gyfer disgyblion ag anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae enghreifftiau o arfer effeithiol iawn yn cynnwys y gefnogaeth y mae'r awdurdod yn ei rhoi i gynhwysiant disgyblion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig mewn ysgolion prif ffrwd, er enghraifft drwy'r gwaith partneriaeth rhwng Ysgol Plas Brondyffryn ac ysgolion prif ffrwd."*

132 Yn dilyn yr arolygiad hwn, bu newidiadau sylweddol yng nghyfansoddiad y cabinet, a hefyd ymysg y deiliaid swyddi allweddol ar lefel uwch-reoli mewn addysg yn yr awdurdod.

133 Ar yr un pryd ag yr agorwyd Hyfrydle ym mis Tachwedd 2007, mynegodd swyddogion ac aelodau'r awdurdod lleol bryderon ynghylch hyfywedd Hyfrydle, pan nodwyd yn gyntaf y rhagamcan o orwariant i'r cabinet a benodwyd yn ddiweddar. Eto, roedd y cyngor i'r cabinet blaenorol wedi mynegi'n glir y byddai'r uned yn gweithredu ar golled ariannol am y ddwy flynedd gyntaf, a chyda'r wybodaeth hon, aeth yr awdurdod ymlaen â'r datblygiad. Ymgymerodd y cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes dros dro â'i swydd ym mis Tachwedd 2007, gan wneud gwella addysgu a dysgu ledled sir Ddinbych yn flaenoriaeth. Ei benderfyniad ef i adolygu'r ddarpariaeth yn Hyfrydle fel blaenoriaeth oedd y tro cyntaf y gwnaed hyn ers creu'r prosiect i ddechrau, er gwaethaf cyfleoedd blaenorol i wneud hynny. Roedd y cyfarwyddwr dros dro wedi nodi, fel risg allweddol, y posibilrwydd y byddai'r golled ariannol wirioneddol a phosibl i'r awdurdod o redeg Hyfrydle yn cyfyngu ar y cyllid a oedd ar gael i'w fuddsoddi mewn gwella ysgolion prif ffrwd.

134 O ganlyniad, rhwng mis Tachwedd 2007 a mis Chwefror 2008, roedd yr awdurdod yn ystyried cau Hyfrydle o ddifrif, er mai newydd agor yr oedd. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2008, cafwyd newid mewn strategaeth, yn dilyn cynrychiolaethau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, llywodraethwyr Ysgol Plas Brondyffryn a rhanddeiliaid eraill. O fis Mawrth 2008, y brif neges oedd 'busnes yn ôl yr arfer' ac ymdrech i gael y cyfleuster wedi'i farchnata'n well yng Nghymru ac mewn awdurdodau cyfagos yn Lloegr.

135 Dechreuodd yr adolygiad gan y grŵp prosiect ym mis Mai 2008, gyda briff i adrodd i aelodau etholedig yn ystod mis Medi 2008. Fel y bu hi, daethpwyd â'r adolygiad i derfyn yn gynnar, ym mis Gorffennaf 2008, heb gyfeirio at holl aelodau'r grŵp, gydag argymhelliad mai cau oedd yr unig opsiwn hyfyw. Y rheswm dros ddod â'r adolygiad i derfyn cynnar oedd nad oedd y cartref yn hyfyw, hyd yn oed gyda'r ddau breswylydd presennol a thri phreswylydd newydd posibl, a phenderfynwyd y byddai'n

annheg derbyn preswylwyr newydd pan fyddai'r cyfleuster yn cau bron yn uniongyrchol wedi hynny.

136 Er bod tîm prosiect yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol wedi cael ei sefydlu, mae'n amlwg na chafodd ei holl aelodau eu cynnwys yn y broses o benderfynu argymell cau Hyfrydle. Roedd rhai aelodau'r tîm yn synnu canfod bod yr adolygiad wedi dod i derfyn ac wedi adrodd i aelodau ym mis Gorffennaf, yn hytrach nag ym mis Medi, ac y gwnaed penderfyniad heb ymgynghori â nhw na rhoi gwybod iddynt. Yn hytrach, gwnaed y penderfyniad i argymell cau Hyfrydle mewn cyfarfod ar 3 Gorffennaf 2008 a fynychwyd gan y cyfarwyddwr dros dro ar gyfer addysg a dysgu gydol oes, a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, y pennaeth gwasanaethau plant, y pennaeth partneriaethau a chynhwysiant dros dro a'r rheolwr prosiect. Cyflwynwyd yr argymhelliad i aelodau'r cabinet mewn cyfarfod anffurfiol ar 8 Gorffennaf, gydag adroddiad ysgrifenedig yn cael ei gyflwyno i gyfarfod cabinet ffurfiol ar 15 Gorffennaf.

137 Argymhellodd yr adroddiad o'r arolygiad a gyflwynwyd i'r cabinet ar 15 Gorffennaf:

- y dylai'r cabinet gytuno i gau Hyfrydle; ac
- o ystyried yr effaith bosibl ar y bobl ifanc sy'n gysylltiedig, bod swyddogion wedi mynd ati i derfynu'r lleoliadau arfaethedig ym mis Gorffennaf a mis Medi (dylai'r cabinet sylwi bod y cam hwn wedi cael ei gymryd).

138 Mae'r adroddiad a'r amlinelliad o achos busnes yn arfarnu'r pedwar opsiwn, a gyflwynwyd i'r cabinet ar 15 Gorffennaf, ac a ddosbarthwyd i awdurdodau partner wedi hynny gan y prif weithredwr ar 16 Awst yn cyflwyno rhesymeg gydlynol, wedi'i hategu gan ystod o wybodaeth, yn enwedig mewn perthynas ag effaith ariannol cynnal Hyfrydle. Fodd bynnag, nododd y tîm adolygu nifer o bwyntiau'n gysylltiedig â'r adroddiadau hyn:

(1) Er y comisiynwyd grŵp prosiect i ymgymryd â'r adolygiad, nid oedd y rhan fwyaf o'r tîm hwn wedi chwarae rhan, os o gwbl, yn arfarnu'r pedwar opsiwn, ac ni roddwyd y cyfle iddynt gymryd rhan yn y penderfyniad i argymell cau.

(2) Roedd yr opsiwn i gau Hyfrydle wedi'i seilio ar achos ariannol rhesymegol a dilys. Fodd bynnag, wrth gyflwyno'r ystyriaethau a'r risgiau allweddol i'r cabinet, roedd yr adroddiad ysgrifenedig wedi hepgor rhai manylion am y cefndir i'r prosiect, ac nid oedd wedi nodi'r gwrthwynebiad tebygol gan randdeiliaid allweddol. Amlygwyd yr angen i ymgynghori â staff, trigolion, eu teuluoedd a'u heiriolwyr yn adran 6 o'r adroddiad, ond dim ond pan wnaed y penderfyniad. Fel y bu hi, mae'r penderfyniad i gau Hyfrydle wedi cael mwy o effaith ar enw Sir Ddinbych a'i chysylltiadau â phartneriaid allweddol nag yr oedd swyddogion ac aelodau wedi'i rhagweld.

(3) Mae'r amlinelliad o achos busnes sy'n cyd-fynd â'r adroddiad hefyd yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth anghywir, a'r datganiad ym mharagraff 2.1 yn enwedig, '*Yn anffodus, ni ellir dod o hyd i achos busnes manwl na dadansoddiad manwl o'r farchnad i gefnogi sefydlu Hyfrydle. Mae Tîm Rheoli Prosiect yr Awdurdod a Phennaeth Ysgol Plas Brondyffryn wedi cadarnhau nad ydynt wedi gweld y ddogfennaeth allweddol hon, ac nid ydym yn ymwybodol ei bod wedi bodoli erioed.*' Mae paragraff 11.2 o'r un ddogfen yn gwneud y datganiad mwy

pendant sef '…*nid oes cynllun busnes ysgrifenedig ar gyfer rhedeg y cartref hwn yn bodoli*'. Rhoddwyd gwybod i aelodau'n ddiweddarach bod y cynllun busnes gwreiddiol wedi cael ei ddarganfod (yn y ffeil anghywir) wedi'r cyfan, ond erbyn y pryd hwn, roedd y penderfyniad eisoes wedi cael ei wneud a'i roi ar waith.

Cylch gorchwyl 3

Adroddiad ar y cynllunio y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud i ddiwallu anghenion y bobl ifanc hynny sydd eisoes yn byw yn Hyfrydle, neu y bwriedir iddynt fyw yn Hyfrydle, wedi i'r penderfyniad i'w gau gael ei wneud

139 Pan gafodd y penderfyniad ei wneud ynglŷn â chau Hyfrydle roedd dau o blant yn byw yno, ac roedd y ddau ohonynt wedi bod yno ers i'r cartref agor ym mis Tachwedd 2007. Roedd anghenion cymhleth gan y ddau, â'u medrau cyfathrebu cyfyngedig yn cymhlethu hynny. Roeddent eisoes yn ddisgyblion hirdymor yn Ysgol Plas Brondyffryn ac roeddent wedi bod yn aros pedair noson yr wythnos yng Ngerddi Glasfryn, y llety preswyl 38-wythnos ar gyfer yr ysgol. Roedd un unigolyn ifanc o Sir Ddinbych, ac roedd y llall o Ynys Môn.

140 Roedd tri o bobl ifanc eraill wedi'u cael eu hasesu hefyd ac wedi cael cynnig lle yn Ysgol Plas Brondyffryn. Roedd dau ohonynt i gael eu haddysg yn Nhŷ'r Ysgol ac roedd un i fynychu Rock House (sef y cyfleuster coleg ôl-16 sydd ynghlwm wrth Ysgol Plas Brondyffryn) ac roedd pob un ohonynt i fyw yn Hyfrydle. Roedd trefniadau pontio wedi'u hen wneud mewn perthynas â'r ddau ohonynt, gyda'r dyddiadau wedi'u pennu i'w derbyn i'r cartref. Roedd un unigolyn ifanc o Swydd Gaerlleon ac roedd i fod i symud i Hyfrydle ar 18/19 Gorffennaf 2008, ac roedd yr unigolyn ifanc arall, o Sir y Fflint, i'w dderbyn cyn diwedd mis Gorffennaf. Ychydig ddyddiau cyn y penderfyniad i gau'r cartref, derbyniwyd y cais i dderbyn unigolyn ifanc o Sir Ddinbych, a gafodd ei leoli y tu allan i'r sir, ac roedd trefniadau'n cael eu gwneud i'w drosglwyddo i Hyfrydle cyn dechrau tymor yr ysgol ym mis Medi.

141 Roedd pob un o'r plant a gafodd eu lleoli yn Hyfrydle yn blant sy'n derbyn gofal sy'n destun darpariaeth o dan Adran 20 Deddf Plant 1989, gyda threfniadau ariannu deuol neu deir-ran rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd. Pan gafodd y penderfyniad i gau Hyfrydle ei wneud, cymerodd cyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol Sir Ddinbych, a chanddo gyfrifoldeb rheolaeth llinell dros y cartref bellach, gyfrifoldeb am hysbysu'r staff perthnasol yn yr awdurdod lleoli presennol a'r awdurdod lleoli arfaethedig. Yn llafar y gwnaed hyn yn y lle cyntaf, ac yna mewn llythyrau ffurfiol i'r adrannau gwasanaethau cymdeithasol eraill ar ôl cyfarfod ffurfiol y cabinet ar 15 Gorffennaf 2008.

142 Cafodd rhieni eu hysbysu am y penderfyniad i gau gan eu gweithwyr cymdeithasol mewn cyfweliadau wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn gan aelod o staff yn y cartref. Nid oedd rhieni na gweithwyr cymdeithasol wedi bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd, ac adroddwyd mai "sioc", "syfrdan" a "dinistr llwyr" oedd eu hymateb. Roedd yn rhaid i rieni ymdopi â'r straen o ganfod lleoliad gofal ac addysg addas gwahanol i'w plentyn mewn cyfnod byr iawn. Ni fu unrhyw ymgynghori â rhieni cyn gwneud y penderfyniad. Fe wnaeth rhai rhieni gyfleu'u barnau i gynghorwyr lleol a swyddogion.

143 Yn nodweddiadol mae pobl ifanc ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn ei chael hi'n anodd ymdopi â newid ac maent yn cymryd cyfnod go faith i addasu. Mae'n hysbys fod gan rai o'r bobl ifanc dan sylw lefelau uchel o orbryder, ac mae eu hanawsterau cyfathrebu'n gwaethygu hyn i rai ohonynt. Nid ydym yn gwybod yn iawn beth yw adweithiau'r bobl ifanc, ac eithrio un. Nid yw'r ddau unigolyn ifanc sy'n byw yn y

cartref yn gwybod eto, ac nid yw'r gallu ganddynt i ddeall yr angen am y trefniadau gwahanol sy'n cael eu gwneud ar gyfer eu gofal a'u haddysg, nac yn deall natur y trefniadau hynny. Mae lefelau uchel o orbryder gan un ohonynt, a rhagwelir y bydd y newid yn ei leoliad gofal ac addysg yn ennyn adwaith cryf.

144 Mae gan un unigolyn ifanc sydd i'w dderbyn i Hyfrydle allu llawn i ddeall, ac mae'n debyg ei fod yn orbryderus ynglŷn â'r newid yn y trefniadau ar gyfer ei ofal a'i addysg. Deliwyd âr cam i'w drosglwyddo i Hyfrydle ac Ysgol Plas Brondyffryn mewn modd sensitif, a lluniwyd rhaglen gyflwyno a phontio dda a ddilynwyd gan ei deulu, staff a gweithwyr proffesiynol iechyd ac addysg eraill. Roedd Hyfrydle a mynychu Rock House wedi'u disgrifio fel trefniadau "delfrydol" ar gyfer ei anghenion, a hwn oedd ei gyfle olaf i gael mynediad i addysg. Roedd y teulu a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig yn bryderus ynghylch y diffyg cyfathrebu cynnar gan Sir Ddinbych ynghylch posibilrwydd cau Hyfrydle, ac iddynt ganiatáu i'r gwaith o drosglwyddo fynd rhagddo mor bell.

145 Mae dau breswylydd cyfredol Hyfrydle, a'r tri darpar breswylydd, i gyd yn ddisgyblion sydd â datganiadau AAA[1]. Ym mhob achos, roedd eu AALlau wedi penderfynu y gellid diwallu eu AAA yn Ysgol Plas Brondyffryn ac roeddent naill ai wedi rhoi datganiad terfynol i'r perwyl hwnnw, neu wrthi'n gwneud hynny.

146 Yn sgil cyflymder ac amseru'r penderfyniad i gau Hyfrydle, a'r methiant i roi gwybodaeth briodol i'r awdurdodau partner yn ystod y cyfnod adolygu, rhoddwyd swyddogion yr AALl, gan gynnwys swyddogion AAA Sir Ddinbych ei hun, yn y sefyllfa anodd eithriadol o orfod ailgynllunio ar rybudd byr iawn tuag at ddiwedd tymor yr ysgol, h.y. ar adeg pan fyddai'r rhan fwyaf o leoliadau ysgol ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf wedi'u setlo, ac ysgolion ar fin cau ar gyfer gwyliau'r haf.

147 Cafodd swyddogion a oedd ar fin lleoli plant yn Hyfrydle/Ysgol Plas Brondyffryn eu hysbysu am y penderfyniad i gau bythefnos cyn yr oedd y lleoliadau a gynlluniwyd i fod i ddechrau. Roedd y swyddogion hyn yn hynod bryderus o gael gwybod na allai'r lleoliadau hyn fynd rhagddynt. Cafodd y penderfyniad annisgwyl a sydyn effaith uniongyrchol a sylweddol ar eu llwythi gwaith eu hunain, gan yr oedd angen iddynt ymateb i rieni pryderus eithriadol, mynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth, ail-wneud gwaith papur a mynd at ysgolion gwahanol, a hynny i gyd ar adeg pan oedd ysgolion ar fin cau ar gyfer gwyliau'r haf. Amcangyfrifodd un swyddog iddo gymryd pedair wythnos yn trefnu lle arall addas, a chrynhodd yr effaith gyffredinol fel a ganlyn:

"Mae'r ansicrwydd ynghylch lleoli'r plentyn hwn sy'n agored i niwed wedi cael effaith niweidiol ar ei deulu, wedi golygu bod swyddogion yr ALl wedi gorfod ymgymryd â gwaith dwys dros gyfnod o bedair wythnos pan oedd llawer o ysgolion wedi cau, ac wedi'n gadael ni braidd yn betrus ynghylch gwneud cais i ysgolion Sir Ddinbych yn y dyfodol rhag ofn i hyn ddigwydd eto".

---

[1] *Mae Cod Ymarfer AAA Cymru (2002) yn pennu dyletswyddau statudol awdurdodau addysg lleol mewn perthynas â gwneud lleoliadau mewn ysgolion arbennig preswyl ar gyfer disgyblion felly. Mae adrannau 8.70 i 8.79 y Cod Ymarfer yn delio â'r gofynion i ymgynghori AALlau ac SSDau wrth wneud lleoliadau preswyl, tra bod adrannau 8.80 i 8.86 yn ymdrin ag ymgynghori rhwng AALlau a Chyrff Llywodraethol ysgolion a gynhelir.*

148 Cadarnhaodd y swyddogion hyn hefyd, pan wnaethant gais am leoedd yn Hyfrydle yn y cyfnod mis Mawrth i fis Gorffennaf 2008, ni chawsant wybod ar unrhyw adeg gan Gyngor Sir Ddinbych bod yr opsiwn i gau Hyfrydle yn cael ei ystyried o ddifrif.

149 Roedd y penderfyniad i gau Hyfrydle'n golygu'n awtomatig na allai'r ddau breswylydd cyfredol na'r tri darpar breswylydd gael eu haddysg yn Ysgol Plas Brondyffryn, ac roedd goblygiadau uniongyrchol yn hyn felly i allu AALlau Sir Ddinbych, Ynys Môn, Sir y Fflint a Swydd Gaerlleon i fodloni gofynion addysgol statudol. Roedd swyddogion â chyfrifoldeb am AAA yn y pedwar awdurdod wedi gweithredu'n gyflym ac yn briodol, mewn amgylchiadau anodd eithriadol, i wneud darpariaeth amgen i gyflawni gofynion datganiadau disgyblion.

150 Yn y cyfamser, mae'r awdurdod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer addysg y ddau breswylydd sefydledig yn Hyfrydle i sicrhau y byddant yn cael eu hawl lawn, sef o leiaf 25 awr o addysg yr wythnos, cyn eu trosglwyddo i'w hysgol newydd. Bydd y ddau unigolyn ifanc hwn yn parhau i fynychu Tŷ'r Ysgol nes eu bod yn symud i'w lleoliadau newydd. Byddant yn cael eu haddysgu gan athro arbenigol, sydd mewn lle da i barhau i ddiwallu'u hanghenion addysgol.

151 Yn fwy cyffredinol, ar ôl derbyn y newyddion am y cau, fe wnaeth pob aelod o staff yr awdurdodau lleoli yn yr adrannau gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, gan gynnwys y rheini yn Sir Ddinbych, ymateb yn broffesiynol, gan barhau i ddarparu cymorth i rieni a rhoi systemau lleol perthnasol ar waith yn gyflym ar gyfer nodi a chytuno lleoliadau preswyl arbenigol eraill, gan gynnwys trefniadau ariannu. Aeth Sir Ddinbych ac Ynys Môn at y ddarpariaeth breifat sydd wedi cofrestru'n ddiweddar yng Ngogledd Cymru. Yn dilyn ymweliadau gan rieni, a'u cytundeb wedi hynny, gwnaed ceisiadau a chynigiwyd lleoedd yn dilyn asesiadau priodol, mewn perthynas â dau o'r bobl ifanc sydd yn byw yn Hyfrydle. Fel y nodwyd uchod, byddant yn cael eu derbyn i'r ysgol/cartref newydd tuag at ddiwedd mis Medi neu ddechrau mis Hydref.

152 Mae rhaglenni pontio'n cael eu cynllunio ar hyn o bryd a byddant yn cael eu hwyluso yn ystod mis Medi, a bydd yr unigolion ifanc yn cael eu derbyn yn derfynol i'r ysgol breswyl/cartref plant ar ddiwedd mis Medi neu ar ddechrau mis Hydref. Roedd rhai o'r staff sy'n gweithio yn y ddarpariaeth breifat newydd yn arfer gweithio yn Ysgol Plas Brondyffryn, ac mae'r bobl ifanc yn eu hadnabod ac maent hwythau'n gyfarwydd â'u hanghenion. Hefyd, mae rhai o'r staff sy'n gweithio yn Hyfrydle ar hyn o bryd wedi'u hadleoli i Erddi Glasfryn. Mae pawb sy'n gysylltiedig o'r farn y bydd hyn yn rhwyddhau proses bontio'r bobl ifanc i'w hysgol/cartref newydd. Mae rhieni a gweithwyr cymdeithasol yn fodlon â'r trefniadau a'r cydweithredu gweithredol rhwng staff a rheolwyr yn Hyfrydle a'r ysgol/cartref newydd. Yn ôl adroddiadau roedd eu symud yn y lle cyntaf i Hyfrydle yn haws am eu bod eisoes wedi bod yn breswylwyr rhan-amser yng Ngerddi Glasfryn, ac fe wnaeth rhai aelodau staff drosglwyddo i'r cartref ar yr un pryd. Sicrhawyd dilyniant eu haddysg yn Ysgol Plas Brondyffryn, ac fe'u trosglwyddwyd i Tŷ'r Ysgol yn ddiweddarach. Pa mor dda bynnag y bydd y trefniadau pontio'n cael eu rheoli, rhagwelir y bydd effaith y trosglwyddo hwn i'w lleoliad newydd yn debygol o fod yn fwy am eu bod yn symud cartref ac ysgol. Hwn fydd y trydydd newid mawr iddynt o fewn 12 mis.

153 Mae un o'r bobl ifanc, a oedd ar fin cael ei dderbyn i Hyfrydle, wedi cael cynnig lleoliad hefyd yn yr ysgol/cartref annibynnol newydd. Mae pob aelod o staff unwaith eto wedi cydweithredu'n llawn i hwyluso'r pontio yno. Mae lefelau uchel o orbryder

gan yr unigolyn ifanc hwn, ac mae yntau, ei deulu, rheolwyr gofal a staff yn yr ysgol/cartref arfaethedig yn bryderus ynglŷn â'r cyfnod cyflwyno byrrach. Roedd ef a'i deulu'n teimlo ei bod yn bwysig ei fod yn byw ac wedi ymgartrefu yno erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Mae pawb sydd ynghlwm yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni hyn ac i leihau ei orbryder gymaint â phosibl.

154 Mae'r ddau unigolyn arall a oedd i fod i gael eu derbyn i Hyfrydle, wedi cael eu trosglwyddo, neu ar fin cael eu trosglwyddo, i leoliadau gwahanol. Yn y ddau achos, roedd y penderfyniad i'w derbyn i Hyfrydle/Ysgol Plas Brondyffryn wedi'u gwneud ddiwrnodau cyn y penderfyniad i'w cau. Dim ond o ryw ychydig yr oedd yn well ganddynt y lleoliad hwn i ddiwallu'u hanghenion gofal ac addysg, oherwydd ei leoliad yn bennaf. Roedd y rhieni a'r awdurdodau lleoli wedi parhau mewn cysylltiad â'r dewis arall o leoliad, ac roedd y ddau Awdurdod - Sir Ddinbych a Sir y Fflint - wedi llwyddo i sicrhau lleoedd i'r bobl ifanc. Mae un unigolyn ifanc eisoes yn byw yn y lleoliad arall, ac mae'n ymgartrefu'n dda yn ôl adroddiadau. Nid oedd yn ymwybodol o'r posibilrwydd trosglwyddo i Ysgol Plas Brondyffryn, a dywedodd ei rieni bod yn well ganddynt y lleoliad arall. Bydd yr unigolyn arall yn trosglwyddo i'r ysgol newydd ar ddechrau'r tymor newydd. Roedd ef a'i rieni'n fodlon â'r ysgol breswyl arall. Serch hynny, mae gryn bellter i ffwrdd o gartref y rhieni. Bydd cynlluniau gofal wedi'u hadolygu a'u newid yn caniatáu ar gyfer ymweld â'i gartref yn amlach, er gwaetha'r pellter. Mae'r ddau leoliad arall yma y tu allan i Gymru: un ger y ffin - Swydd Amwythig, a'r llall yn Cumbria.

155 Er gwaetha'r adweithiau cryf gan rieni yn y lle cyntaf i'r newyddion am gau'r cartref, a'r straen cysylltiedig wedi hynny wrth geisio dod o hyd i leoliad llawn mor addas mewn amser byr, mae'r rhan fwyaf ohonynt, yn ôl pob sôn, wedi derbyn y trefniadau amgen yn gadarnhaol, ac mewn rhai achosion maent yn dweud mai'r lleoliadau newydd fyddai eu dewis opsiwn pe byddent wedi cael dewis yn gynharach. Gellir deall fod rhai ohonynt yn parhau'n bryderus ynglŷn ag effaith newid ychwanegol ac annisgwyl ar eu plant. Roedd rhai'n pryderu, ac maent yn dal i bryderu'n gryf, ynglŷn â'r diffyg rhannu gwybodaeth yn gynnar gyda nhw cyn y penderfyniad i gau Hyfrydle. Roedd rhai o'r staff gofal cymdeithasol proffesiynol yn rhannu'r farn hon hefyd.

Cylch gorchwyl 4

Cyrraedd asesiad o effaith bosibl cau Hyfrydle ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysgol eraill sy'n cael eu darparu ar safle Ysgol Plas Brondyffryn

156 Un o'r ystyriaethau allweddol o effaith botensial cau Hyfrydle yw dyfodol uned Tŷ'r Ysgol mewn adeiladu dau lawr rhwng Hyfrydle a Gerddi Glasfryn. Sefydlwyd yr uned hon yn unswydd i ddarparu lleoedd addysg dydd ar gyfer preswylwyr Hyfrydle. Y sail resymegol dros ddarparu Tŷ'r Ysgol ochr yn ochr â Hyfrydle oedd y byddai plant a phobl ifanc ag angen gofal 52 wythnos arnynt yn debygol o fod â phatrwm nodedig o ran angen addysgol arbennig h.y. anhwylder y sbectrwm awtistig, ac anawsterau dysgu penodol (ADP), ynghyd ag ymddygiad heriol, ac felly byddai angen lefelau uchel o gymorth arnynt, a dulliau addysgu gwahanol i'r rheini sy'n cael eu cynnig fel arfer yn nosbarthiadau cynradd, uwchradd ac ôl-16 cyfredol Ysgol Plas Brondyffryn.

157 Disgrifir uned Tŷ'r Ysgol fel darpariaeth addysg ar gyfer disgyblion cyfnodau allweddol 4 a 5. Mae'r uned yn rhan o Ysgol Plas Brondyffryn a'r pennaeth a'r corff llywodraethol sy'n gyfrifol am ansawdd yr addysg a gyflwynir yno.

158 Ar ddechrau 2008, fe wnaeth y meini prawf ar gyfer derbyn i Dŷ'r Ysgol newid, a bellach mae'n cael ei ystyried gan y pennaeth a chan swyddogion addysg, fel uned sy'n cael ei defnyddio'n briodol nid yn unig ar gyfer disgyblion Hyfrydle ond ar gyfer disgyblion eraill Ysgol Plas Brondyffryn hefyd y mae angen cymorth addysgol ac ymddygiad dwysach arnynt. Mae'r penderfyniad hwn yn ddefnydd priodol o adnodd addysgol gwerthfawr na fyddai fel arall yn cael ei ddefnyddio'n ddigonol.

159 Nid yw'r achos busnes dros gau Hyfrydle (a gyflwynwyd i'r cabinet ym mis Gorffennaf 2008) yn sôn am unrhyw fwriad i gau Tŷ'r Ysgol ar yr un pryd. I'r gwrthwyneb, yr ymhlygiad yw y bydd Tŷ'r Ysgol yn parhau ar agor, ond ar gost i Ysgol Plas Brondyffryn. Mae'r awdurdod lleol yn 'Achos busnes ar gyfer dewisiadau'r dyfodol' yn datgan:

"Pe bai'r cartref yn cau byddai canlyniadau parhaus i Ysgol Plas Brondyffryn o ran refeniw. Datblygodd Ysgol Plas Brondyffryn fel cyfleuster addysgol ar gyfer Hyfrydle, ac mae costau'r cyfleuster hwnnw wedi'u cynnwys fel rhan o gostau Hyfrydle. Os yw Hyfrydle'n cau, byddai'n rhaid i Ysgol Plas Brondyffryn ysgwyddo'r costau hyn. Y costau sy'n gysylltiedig â'r cyfleuster addysgol yw staff addysgu a glanhau, costau adeiladau a chostau benthyg darbodus, a ragdybir fydd yn draean o gyfanswm y costau benthyg darbodus. Yr effaith i'r ysgol fyddai £225,317 ychwanegol y flwyddyn". (Paragraff 11.9)

160 Er gwaetha'r datganiad a ddyfynnir uchod, mae'r cyfarwyddwr addysg a dysgu gydol oes a'r cyfarwyddwr cyllid dros dro wedi datgan ers hynny nad yw'r awdurdod yn bwriadu ail-godi ar Ysgol Plas Brondyffryn am y costau benthyg darbodus. Yn hytrach, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn talu am hyn o gyllideb ganolog.

Effaith bosibl yn y tymor byr

161 Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, nid oedd corff llywodraethol yr ysgol yn rhan o'r ymgynghoriad ynghylch y penderfyniad i gau Hyfrydle. O ganlyniad, nid yw'r corff llywodraethol wedi cael unrhyw gyfle eto i ystyried effaith y penderfyniad hwn ar Ysgol Plas Brondyffryn yn gyffredinol, nac ar Tŷ'r Ysgol yn benodol.

162 Fodd bynnag, mae'r penderfyniad i gau Hyfrydle wedi cael canlyniadau uniongyrchol ar Ysgol Plas Brondyffryn. Mae'r pennaeth eisoes wedi trosglwyddo costau staff addysgu a staff nad ydynt yn staff addysgu yn Nhŷ'r Ysgol i'r gyllideb sylfaen ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn. Mae hyn yn cynnwys amsugno costau'r ddau aelod o staff addysgu yn Nhŷ'r Ysgol trwy eu penodi i swyddi gweigion yn lle recriwtio staff newydd mewn meysydd eraill yn Ysgol Plas Brondyffryn.

163 Erbyn diwedd tymor yr haf roedd y pennaeth wedi ad-drefnu'r rhestrau dosbarthiadau gan ragdybio na fyddai'r ddau breswylydd presennol yn Hyfrydle ar gofrestr yr ysgol mwyach. O ganlyniad, bu'n angenrheidiol i'r awdurdod ariannu athro llanw i addysgu'r ddau ddisgybl sy'n byw yn Hyfrydle ar hyn o bryd yn ystod y cyfnod pontio chwe wythnos rhwng Ysgol Plas Brondyffryn a'u hysgol newydd.

Effaith bosibl yn y tymor hwy

164 Mae'r awdurdod wedi dweud yn glir, er bod rhaid i'r defnydd tymor hwy o Dŷ'r Ysgol fod yn destun trafod pellach rhwng yr awdurdod a'r ysgol, mae'n bwriadu gwneud hyn fel rhan o'r gwaith adolygu pellach ar ddefnyddio Hyfrydle.

165 Gall cau Hyfrydle leihau nifer y plant sy'n mynychu cyfleusterau addysgol Ysgol Plas Brondyffryn, gan na fydd plant y mae angen lleoliadau 52-wythnos arnynt yn gallu mynychu'r ysgol mwyach.

166 I rai awdurdodau, mae'r diffyg ymgynghori a'r modd y trosglwyddwyd y wybodaeth am gau Hyfrydle iddynt, a'r effaith ar y teulu dan sylw, wedi arwain at rai swyddogion yn colli hyder yng Nghyngor Sir Ddinbych yn gyffredinol. Mynegwyd amheuon gan rai gweithwyr proffesiynol, pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei hail-agor at rhyw ddiben, a fyddent yn dewis ei ddefnyddio.

167 Mae potensial am fwy o geisiadau am arosiadau amlach ac am ymestyn hyd arosiadau yng Ngerddi Glasfryn.

168 At ei gilydd, ychydig o effaith y mae cau Hyfrydle wedi'i chael hyd yma ar wasanaethau gofal cymdeithasol ac addysgol eraill sy'n cael eu darparu ar safle Ysgol Plas Brondyffryn.

Atodiad 1

Ysgol Plas Brondyffryn

Cyfleusterau preswyl

Hyfrydle

- Cartref Plant
- Rheoliadau 2002 Cymru
- Cofrestru
- Yn gweithredu 365 o ddiwrnodau
- Lle i 12 gwely
- Plant 9-19 oed
- Tua 45 o staff
- Adeiladau wedi'u cwblhau Gorffennaf 06

Gerddi Glasfryn

- Ysgol Breswyl Wythnosol
- Safonau Gofynnol Ysgolion Arbennig Preswyl
- Dim cofrestru
- 4 noson/wythnos
- adeg tymor yn unig
- 24 gwely
- Tua 24 o staff
- Cwblhawyd Gorffennaf 05

Cyfleusterau Addysg

Ysgol Uwchradd

- Adran uwchradd
- Darpariaeth addysg
- Cyfnodau allweddol 3 a 4
- 7 dosbarth ar hyn o bryd (55 o ddisgyblion)
- Tua 30 o staff
- Cwblhawyd Tachwedd 03

Tŷ'r Ysgol

- Disgyblion uwchradd gydag ADD ac anghenion Cymhleth
- Darpariaeth addysg
- Cyfnodau allweddol 4 a 5 (ôl-16)
- 2 ddosbarth ar hyn o bryd (hyd at 4)
- 10 disgybl (hyd at 16)
- 9 o staff (hyd at 24)
- Uwch athro newydd Ionawr 07
- Cwblhawyd Gorff 06

Tŷ'n Fron

- Adran gynradd a'r blynyddoedd cynnar
- Darpariaeth addysg
- 1 dosbarth CA1
- 5 dosbarth CA2
- 1 dosbarth AcSE
- Tua 45 o ddisgyblion
- Tua 30 o staff
- Cwblhawyd Awst 06

Rock House

- Adran ôl-16
- Darpariaeth addysg
- 1 dosbarth
- 10 disgybl
- 4 o staff
- Adeilad ar brydles flynyddol
- Cysylltiadau â'r coleg cymunedol